Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

# Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

## Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Rhagfyr 2008

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1990
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

## CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Aelodau'r Pwyllgor** | | **3** |
| **Crynodeb o'r argymhellion** | | **5** |
| **1.** | **RHAGYMADRODD** | **11** |
| **2.** | **Y CEFNDIR POLISI** | **12** |
| **3.** | **YR EGWYDDORION CYFFREDINOL A'R ANGEN AM DDEDDFWRIAETH** | **13** |
| **4.** | **SYLWADAU PENODOL AR Y DARPARIAETHAU** | **17** |
| **5.** | **Y GOBLYGIADAU ARIANNOL** | **44** |
| **6.** | **DARPARIAETHAU IS-DDEDDFWRIAETH** | **45** |
| **ATODIAD A:** | **Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd** | **46** |
| | Nid yw'r cyflwyniadau eu hunain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond maent ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-ls/bus-leg-measures-ls-consultationresponses.htm | |
| | **Rhestr o dystiolaeth lafar** | |
| | Nid yw'r Cofnod o Drafodion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, ond mae ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-ls-agendas.htm | |
| **ATODIAD B:** | **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, dyddiedig 6 Hydref 2008 (Saesneg yn unig)** | **50** |
| **ATODIAD C:** | **Ymateb gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, dyddiedig 9 Hydref 2008** | **51** |
| **ATODIAD D:** | **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn, dyddiedig 15 Hydref 2008 (Saesneg yn unig)** | **58** |
| **ATODIAD E:** | **Ymateb gan Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn, dyddiedig 30 Hydref 2008 (Saesneg yn unig)** | **59** |

**ATODIAD F: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 60**

**ATODIAD G: Llythyr (Saesneg yn unig) ac Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 dyddiedig 11 Tachwedd 2008 65**

## Y PWYLLGOR AR Y MESUR ARFAETHEDIG YNGHYLCH DYSGU A SGILIAU (CYMRU)

## AELODAU'R PWYLLGOR

| **Aelod** | **Plaid Wleidyddol** |
|---|---|
| Jeff Cuthbert (Cadeirydd) | Llafur |
| Christine Chapman | Llafur |
| Andrew R T Davies | Plaid Geidwadol Cymru |
| Janet Ryder | Plaid Cymru |
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru |

## CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

### Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

1. Rydym yn cytuno â'r nod sydd y tu cefn i'r Mesur arfaethedig - sef creu hawliau i ddysgwyr a rhoi dewis ehangach - ac rydym yn ategu bod angen deddfu er mwyn gyrru'r agenda polisi yn ei flaen. Rydym yn amlinellu'r dystiolaeth o blaid hyn yn y paragraffau canlynol. Er hynny, rydym yn nodi yn yr adroddiad hwn nifer o feysydd allweddol yn y Mesur arfaethedig y bydd angen iddyn nhw naill ai cael eu diwygio yn ystod Cyfnod 2 neu gael sylw gan y Gweinidog. Amlinellir y rhain isod:

- Seiliau dros benderfyniadau ar hawlogaeth, gan gynnwys proses apelio;
- Disgyblion a waherddir;
- Ymgynghori wrth gynllunio cwricwla ardal leol;
- Y ddyletswydd i ystyried cydlafurio;
- Strwythurau cyllido;
- Defnyddio technoleg gwybodaeth (TG) wrth gydlafurio;
- Rheoliadau hyfforddiant;
- Y gallu i ddisgyblion gymryd rhan sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr;
- Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg;
- Yr effaith ar ysgolion ffydd;
- Yr amserlen ar gyfer gweithredu;
- Asesu'r costau – fel y'i hamlinellwyd gan y Pwyllgor Cyllid[1]

Roedd Andrew R T Davies o'r farn na allai ategu egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

### Mwy nag un Cwricwlwm Ardal Leol mewn ardal awdurdod lleol

2. Rydym yn cytuno y byddai'r dewis o gael mwy nag un cwricwlwm yn ardal awdurdod lleol yn rhoi hyblygrwydd a'i fod yn agwedd bwysig ar y Mesur arfaethedig.

### Meysydd Dysgu

3. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau manwl yn ychwanegol at y pŵer i roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â'r cyrsiau sy'n dod o fewn pob un o'r meysydd dysgu. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod rhaid peidio â chymhwyso'r meysydd yn anhyblyg a bod rhaid sicrhau mesur o hyblygrwydd.

4. Rydym yn ategu'n llwyr yr ymdrech i sicrhau parch cydradd rhwng cyrsiau "galwedigaethol" ac "academaidd". Rydym yn cytuno gyda'r farn bod terminoleg yn llai o bwnc llosg os yw cyrsiau'n berthnasol ac yn dda o ran eu hansawdd.

[1] Atodiad F – Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**Isafswm cyrsiau**

5. Rydym yn argymell y dylai dysgwyr gael yr hawl i astudio ar lefel un gan gydnabod bod angen hybu cyfranogiad mewn cyrsiau lefel dau lle bo'n briodol.

6. Rydym yn cytuno y dylai'r Mesur arfaethedig roi pwerau i Weinidogion Crymu i bennu isafswm cyrsiau yn y cwricwlwm ardal leol ac y dylai'r isafswm cyrsiau fod ar gael yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

7. Yn ychwanegol, hoffem gael eglurhad gan y Gweinidog dros Sgiliau a yw Bagloriaeth Cymru a'r pynciau craidd wedi'u cynnwys yn yr isafswm.

**Dewis i ddysgwyr a'r seiliau dros benderfyniadau ar hawlogaeth**

8. Rydym o'r farn y gallai paragraffau (2)(b) ac (c) yn adran 8 gael eu defnyddio'n llawer rhy hawdd fel cymalau dianc lle ceir oedi wrth sicrhau cydweithredu. Rydym yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio er mwyn dileu'r sail "reasonable practicability" a "disproportionate expenditure" mewn perthynas â phenderfynaid pennaeth ysgol ar hawlogaeth er mwyn sicrhau bod yna bwysau ar ysgolion a sefydliadau AB i fod yn wirioneddol gydweithredol.

9. Rydym yn argymell y dylid gwneud darpariaeth yn y Mesur arfaethedig ar gyfer proses apelio mewn perthynas â phenderfyniadau penaethiaid ysgolion ar hawlogaeth a phenderfyniadau i ddileu hawlogaeth, gan nodi'r manylion mewn rheoliadau.

10. Ymhellach, dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir mewn perthynas â hawlogaeth wneud darpariaeth i sicrhau bod disgyblion wedi cael cyngor a chanllawiau diduedd ac mai dim ond ar ôl i bob llwybr arall gael ei ddihysbyddu y dylai feto pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad gael ei ddefnyddio.

**Uchafswm cyrsiau astudio**

11. Rydym o'r farn bod angen i unrhyw system o bwyntiau a ddyrennir i gyrsiau fod yn deg a thryloyw ac rydym yn argymell y dylai unrhyw reoliadau i bennu uchafswm o gyrsiau roi digon o hyblygrwydd i beidio â chyfyngu ar ddisgyblion y bernir eu bod yn gallu dilyn cwrs astudio mwy ymestynnol. Rydym yn argymell y dylid monitro hyn a pharhau i'w adolygu'n rheolaidd.

**Penderfynu ar "relevant school or institution" disgybl**

12. Rhaid i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan y Mesur ddatgan yn glir y cyfrifoldebau dros ddyletswydd gofal tuag at ddisgyblion mewn perthynas â'u lles a'u cynnydd drwy'r ysgol (er enghraifft datblygiad disgyblion, adroddiadau, ymgysylltu â'r rhieni, gofal bugeiliol, cofrestru ar gyfer arholiadau etc.)

**Gwahardd**

13. Mae'r Pwyllgor yn gofidio bod rheolau gwahanol yn gymwys mewn ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach o ran gwahardd disgyblion ac mae'n argymell y dylai'r Gweinidog roi sylw i'r mater hwn cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn.

**Adrannau 11 a 29 – Cynllunio'r cwricwlwm lleol**

14. Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros gynllunio'r cwricwla ardal leol i bobl ifanc 16 i 19 oed i'r awdurdodau addysg lleol (AALl) ond y dylai Gweinidogion Cymru gadw'r pŵer i gymeradwyo'r cynlluniau a gynigir gan yr AALl.

**Rôl rhanddeiliaid allweddol yn y broses gynllunio**

15. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 ar gyfer dyletswydd statudol newydd i ymgynghori â'r sector busnes, darparwyr dysgu sydd wedi'i seilio ar waith a chynrychiolwyr myfyrwyr wrth gynllunio'r cwricwla ardal leol.

**Dyletswydd i ystyried trefniadau cydweithredu**

16. Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r Mesur arfaethedig o ran cydlafurio. Dylai'r Mesur arfaethedig osod "dyletswydd i gydlafurio" yn hytrach na "dyletswydd i ystyried cydlafurio". Ymhellach, bydd angen gwelliannau er mwyn sicrhau na fydd cwricwla lleol na chydlafurio yn cael eu cyfyngu gan ffiniau'r Awdurdodau Lleol.

17. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig osod mwy o atebolrwydd ar benaethiaid ysgolion a phenaethiaid sefydliadau i sicrhau lefel benodol o sgiliau sylfaenol ymhlith disgyblion yn hytrach na dim ond dyletswydd i ystyried cydlafurio.

**Strwythurau Cyllido**

18. Mae'r mwyafrif o'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog adolygu'r strwythurau cyllido cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn, Anghytunodd Andrew R T Davies gan gredu y dylai'r mater hwn gael sylw cyn i'r Mesur arfaethedig fynd dim pellach.

**Amserlenni cyffredin**

19. Rydym yn argymell y dylai unrhyw reoliadau neu ganllawiau a wneir o dan y Mesur arfaethedig gyfeirio at yr angen am "amserlenni wedi'u cysoni" yn hytrach nag amserlenni "cyffredin".

**Cludiant**

20. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi amlinelliad clir o sut mae'n bwriadu dod dros y cyfyngiadau ar gludiant y mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr wedi'u creu ac y dylai gwelliannau gael eu cyflwyno i'r Mesur arfaethedig hwn er mwyn sicrhau nad yw darparu cludiant a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny yn rhwystro cydlafurio a dewis i ddisgyblion. Ymhellach, dylai'r Gweinidog ddatgan yn glir pwy sy'n gyfrifol am y costau ynglŷn â darparu cludiant.

21. Rydym yn argymell y dylai rhagor o ymchwil gael ei wneud er mwyn deall y materion a'r cyfleoedd, gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth, a allai hwyluso cydlafurio ac a allai helpu i leihau'r angen i deithio, er enghraifft:

- defnyddio TG a fideo-gynadledda;
- symud staff yn hytrach na disgyblion; a
- defnyddio ystafelloedd dosbarth symudol, peripatetig.

Roedd y mwyafrif o'r Pwyllgor yn credu y dylai'r gwaith hwn gael ei wneud cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn. Anghytunodd Andrew R T Davies gan gredu y dylai'r mater gael sylw cyn i'r Mesur arfaethedig fynd dim pellach.

**Telerau, Amodau a Hyfforddiant i'r Staff**

22. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried darparu hyfforddiant y gallai fod ar athrawon a darlithwyr ei angen mewn perthynas â chydlafurio cydweithredol a darparu cyrsiau ar gyfer y cwricwla ardal leol.

23. Rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno rheoliadau yng Nghymru, yn debyg i Reoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Lloegr) 2007 i sicrhau y gall athrawon addysg bellach ennill cymwysterau proffesiynol pellach a gwella'r cyfleoedd ddatblygu proffesiynol sydd ar gael iddyn nhw. Roedd y mwyafrif o'r Pwyllgor yn credu y dylai'r rhain gael eu cyflwyno i'r Mesur arfaethedig gychwyn. Anghytunodd Andrew R T Davies gan gredu y dylai'r rheoliadau gael eu cyflwyno cyn i'r Mesur arfaethedig fynd dim pellach.

**Cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i blant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig. (Adran 16)**

24. Nid yw'r Pwyllgor yn fodlon bod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r gallu i ddisgyblion mewn addysg brif-ffrwd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gymryd rhan yn y cyfleoedd y bydd y Mesur arfaethedig yn eu darparu. Cyn i'r Mesur gychwyn, rhaid i'r Gweinidog nodi'n glir y cyfleoedd a'r cymorth y mae angen iddyn nhw fod ar gael i ddisgyblion a rhieni.

25. Rydym yn credu y dylai rheoliadau a wneir o dan adran 16 o'r Mesur arfaethedig gael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol er mwyn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud

mwy o waith craffu arnyn nhw. Rydym yn gofyn am eglurhad gan y Gweinidog pam y mae'n credu mai'r weithdrefn negyddol sy'n briodol.

**Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr**

26. Rydym yn credu y bydd cymorth i unigolion yn allweddol ar gyfer llwyddiant y polisi Llwybrau Dysgu ac nid yw'n glir sut y caiff hwn ei gyflwyno drwy'r Mesur arfaethedig. Roedd y mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn bod rhaid i'r Gweinidog gyflwyno cynigion clir mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ddysgwyr cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn. Anghytunodd Andrew R T Davies gan gredu y dylai'r mater hwn gael sylw cyn i'r Mesur arfaethedig fynd dim pellach.

27. Yn ychwanegol, rydym yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio i sicrhau mai anghenion y dysgwyr sydd bwysicaf a bod unrhyw weithiwr proffesiynol sydd wrthi'n darparu neu'n cyflwyno gwasanaethau cymorth i ddysgwyr o dan ddyletswydd statudol i ddangos ei fod yn ddiduedd.

28. Rydym o'r farn y dylai datganiad o fwriad yn debyg i'r un a geir yng nghymal 80 o'r Mesur Addysg a Sgiliau gael ei gynnwys yn y Mesur arfaethedig mewn perthynas â'r holl wasanaethau cymorth i ddysgwyr, nid cyngor ar yrfaoedd yn unig.

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

29. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud darpariaeth ar wyneb y Mesur arfaethedig i ddysgwyr gael hawlogaeth i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg os dewisan nhw.

30. Yng ngoleuni'r dystiolaeth ar hyn, rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi ei strategaeth ar Addysg Gymraeg cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn. Bydd hynny'n sicrhau bod modd i ddarpariaethau Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg gael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy cyffredinol.

**Ysgolion Ffydd**

31. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi rhagor o ystyriaeth i effaith y Mesur arfaethedig ar ysgolion ffydd cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn.

**Cychwyn**

32. Rydym yn nodi bod y Gweinidog erbyn hyn wedi sefydlu grŵp gweithredu ac mae'n glir na all y cynigion yn y Mesur arfaethedig lwyddo heb ewyllys y rhai sy'n ymwneud â'i gyflwyno. Er hynny, ar sail y dystiolaeth sydd ger ein bron ar hyn o bryd, rydym yn credu bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu yn afresymol. Gan hynny, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ailystyried yr amserlen ar gyfer cychwyn a hynny cyn i'r Mesur arfaethedig fynd yn ei flaen.

33. Gan y bydd y Pwyllgor hwn yn gorffen ei waith ar y Mesur arfaethedig yn gynnar y flwyddyn nesaf, mae'n ymddangos ei bod yn briodol i'r Pwyllgor

Menter a Dysgu fonitro'r cynnydd ar y gweithredu os gall y Pwyllgor ymdopi â hynny yn ei raglen waith.

**Y Goblygiadau Ariannol**

34. Rydym yn nodi'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cylliad ac yn cydnabod bod nifer o'r materion y maen nhw'n eu codi wedi cael eu codi hefyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn. Gan hynny, rydym yn argymell y dylid rhoi sylw i'r pryderon hyn cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn.

## 1. RHAGYMADRODD

1. Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a gyflwynodd y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008, a hynny ar 7 Gorffennaf 2008. Gwnaeth ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn drannoeth, a sefydlwyd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Gorffennaf.

2. Gwaith y Pwyllgor yw "ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt" (Rheol Sefydlog 23.23), gan graffu ar y Mesur yn ystod Cyfnod 1 o broses ddeddfwriaethol y Cynulliad.

### Ymagwedd y Pwyllgor

3. Ymgynghorodd y Pwyllgor yn eang, gan roi galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig a chlywed tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o sefydliadau a fydd yn cyfrannu at roi'r trefniadau ar waith. Cawsom dystiolaeth gan 23 o sefydliadau ac unigolion, ac mae rhestr o bawb a gyfrannodd at ein gwaith i'w gweld yn Atodiad A. Bu'n rhaid i ni gwblhau'r gwaith craffu mewn cyfnod cymharol fyr ac rydym yn ddiolchgar i'r rheini a roddodd dystiolaeth ar fyr rybudd. Roedd eu cyfraniad at ein gwaith ac at y broses o ystyried y Mesur arfaethedig yn amhrisiadwy.

4. Roedd yn anochel bod y dystiolaeth a gawson yn adlewyrchu'r amrediad eang o fuddiannau sydd gan y gwahanol ymarferwyr sy'n ymwneud â chynllunio a chyflwyno dysgu i'r garfan 14-19 oed. Wrth gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig rydyn ni wedi cymryd i ystyriaeth safbwynt pob un o'r grwpiau gwahanol ac wedi ceisio adlewyrchu'r materion allweddol mewn perthynas â chynnwys y Mesur, gan fynd ati ar sail consensws.

5. Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth hefyd wedi cyflwyno adroddiadau ar y Mesur arfaethedig ac mae'r adroddiadau hyn i'w gweld yn Atodiadau F a G.

## 2. Y CEFNDIR POLISI

6. Yn 2002 yr amlinellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynigion am y tro cyntaf ar gyfer *Llwybrau Dysgu 14-19. Llwybrau Dysgu* yw'r profiadau dysgu a gaiff pob dysgwr unigol ac maen nhw'n cynnwys datblygu hawlogaeth i bob dysgwr. Mae *Llwybrau Dysgu* yn cynnwys cydbwysed do dysgu ffurfiol, dewis ehangach, hyblygrwydd a Chraidd Dysgu 14-19, ynghyd â chyfuniad o gymorth i ateb anghenion dysgwyr.

7. Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y bydd gan bob dysgwr ifanc hawlogaeth i gael fframwaith llwybrau dysgu, a fydd yn anelu at eu helpu i wireddu eu potensial. Mae chwe elfen allweddol i'r fframwaith - y tair cyntaf yn ymwneud â chyflwyno a'r tair arall yn ymwneud â chymorth.

- **Llwybr dysgu unigol** gan gynnwys profiadau dysgu ffurfiol, dysgu heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol a hynny mewn sefydliad dysgu a'r tu allan iddo.
- **Dewis ehangach a hyblygrwydd o blith dewis o opsiynau cydweithredol** – mae'r dewis o opsiynau i bob dysgwr yn adlewyrchu ei hawlogaeth i gael dewis o raglenni astudio.
- **Craidd Dysgu** sy'n darparu profiadau a gweithgareddau ehangach i ddatblygu sgiliau dysgu, sgiliau personol a sgiliau emosiynol.
- **Anogwr Dysgu** - mae'n ofynnol rhoi cyfle i bawb sy'n 14-19 oed i gael cymorth anogwr dysgu i'w helpi i ddatblygu eu sgiliau dysgu, i wneud gwell defnydd ar eu harddulliau dysgu eu hunain a datblygu'r rhain; a chynyddu gymaint ag y gellir ar eu datblygiad eu hunain mewn amryw o feysydd deallusrwydd gan gynnwys deallusrwydd emosiynol.
- **Cyfle i gael cymorth personol.**
- **Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am yrfaoedd.**

8. I helpu i roi'r polisi ar waith a darparu ymagwedd strategol, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Rwydweithiau 14-19 yn ardal pob Awdurdod Lleol. Mae'r Rhwydweithiau'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y rhanddeiliaid allweddol a'r dasg a gawson nhw oedd datblygu ymagwedd strategol i sicrhau bod yr holl elfennau allweddol ar gael i ddysgwyr o bob gallu. Cafodd y polisi ei gyflwyno ar y dechrau drwy nifer o brosiectau peilot.

## 3. YR EGWYDDORION CYFFREDINOL A'R ANGEN AM DDEDDFWRIAETH

9. Dyma'r trydydd pwyllgor yn y Cynulliad i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol Mesur Cynulliad arfaethedig, a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sut y byddem yn bwrw ati gyda'n gwaith. Yn ystod ystyriaeth Cyfnod 1, mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn darparu ar gyfer gwaith craffu manylach na'r gwaith craffu ar Fesurau yn San Steffan.

10. Rydym wedi ceisio penderfynu a yw egwyddorion cyffredinol y darn penodol o ddeddfwriaeth sydd o'n blaen yn gadarn, gan bennu bod ystyried yr egwyddorion cyffredinol yn golygu mwy na dim ond cael trafodaeth frysiog ynghylch a yw'r penderfyniad i ddeddfu mewn maes polisi cyhoeddus eang yn ddilys ai peidio.

**11. Rydym yn cytuno â'r nod sydd y tu cefn i'r Mesur arfaethedig - sef creu hawliau i ddysgwyr a rhoi dewis ehangach - ac rydym yn ategu bod angen deddfu er mwyn gyrru'r agenda polisi yn ei flaen. Rydym yn amlinellu'r dystiolaeth o blaid hyn yn y paragraffau canlynol. Er hynny, rydym yn nodi yn yr adroddiad hwn nifer o feysydd allweddol yn y Mesur arfaethedig y bydd angen iddyn nhw naill ai cael eu diwygio yn ystod Cyfnod 2 neu gael sylw gan y Gweinidog. Amlinellir y rhain isod:**

- **Seiliau dros benderfyniadau ar hawlogaeth, gan gynnwys proses apelio;**
- **Disgyblion a waherddir;**
- **Ymgynghori wrth gynllunio cwricwla ardal leol;**
- **Y ddyletswydd i ystyried cydlafurio;**
- **Strwythurau cyllido;**
- **Defnyddio technoleg gwybodaeth (TG) wrth gydlafurio;**
- **Rheoliadau hyfforddiant;**
- **Y gallu i ddisgyblion gymryd rhan sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;**
- **Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr;**
- **Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg;**
- **Yr effaith ar ysgolion ffydd;**
- **Yr amserlen ar gyfer gweithredu;**
- **Asesu'r costau – fel y'i hamlinellwyd gan y Pwyllgor Cyllid[2]**

**Roedd Andrew R T Davies o'r farn na allai ategu egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.**

### Yr angen am ddeddfwriaeth

12. Amcan allweddol y Mesur arfaethedig, sydd wedi'i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol, yw "creu'r hawl i ddisgyblion ... i ddewis dilyn cyrsiau

[2] Atodiad F – Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

astudio o gwricwlwm ardal leol"[3] (llwybr dysgu unigol), ond y nod sy'n sail i bolisi llwybrau dysgu yw codi lefelau cyrhaeddiad nifer cynyddol o ddysgwyr. Dywedodd CBI Cymru[4] fod anghenion cyflogwyr yn hyn o beth yn glir:

> "for young people to leave compulsory full time education literate and numerate….it's critical too that young people develop softer employability skills (such as team working and problem solving, underpinned by a positive attitude)"

13. Ategodd llawer o dystion, mewn tystiolaeth ysgrifenedig ac mewn tystiolaeth lafar, fod angen deddfwriaeth i symud agenda llwybrau dysgu 14-19 yn ei flaen. Ceid cydnabyddiaeth bod cynnydd wedi'i wneud ond ei fod yn araf a thameidiog, gan greu anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth.

14. Roedd Estyn[5] o blaid defnyddio deddfwriaeth i ad-drefnu'r ddarpariaeth 14-19. Roedd astudiaethau diweddar gan Estyn wedi nodi:

> "that not all learners have equal access to a suitable range of options that meet their needs and interests, despite the best efforts of learning networks and some of the providers within their areas".

Dywedodd Estyn fod y cynnydd tuag at ddarpariaeth 14-19 ddigonol yn rhy araf mewn llawer man. Wrth roi tystiolaeth lafar, amlinellodd Estyn eu barn nhw bod angen "the force of statutory legislation to inject some urgency and structure…"[6]

15. Ategodd Llywodraethwyr Cymru[7] fod angen "proper legal framework" gan gytuno "widening the choice to include vocational skills should be a right for all learners." Roedden nhw o'r farn bod angen deddfwriaeth er mwyn cyflymu "a process that currently is making slow progress in some areas".

16. Wrth ategu bod angen deddfu i ad-drefnu'r ddarpariaeth 14-19, cyfeiriodd Fforwm[8] at yr angen am gydraddoldeb yn y ddarpariaeth. Roedd Fforwm o'r farn bod dysgwyr mewn rhai rhannau o Gymru'n wynebu "a restricted curriculum" a hynny am fod llawer o sefydliadau addysgol yn methu â chynnig "a broad range of academic and vocational options."

17. Cyfeiriodd Coleg Gwent[9] at yr effaith y gallai deddfwriaeth ei chael ar ail-ennyn diddordeb dysgwyr. Gwnaeth y Coleg y pwynt y gallai ehangu'n sylweddol ar amrediad y dewisiadau i ddysgwyr 14-19 oed "encourage some learners to remain in learning until they are 18 and could re-engage 14 year olds turned off by the current academic school curriculum."

---

[3] Y Memorandwm Esboniadol paragraff 3.7 (bwled 3)
[4] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 17
[5] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 10
[6] Cofnod y Trafodion paragraff [6] 2 Hydref 2008
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 13
[8] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 12
[9] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 16

18. Er bod llawer yn ategu bod angen deddfu, roedd rhai o'r farn nad deddfu oedd yr unig ffordd ymlaen ac mai dyma un rhan yn unig o'r hyn yr oedd ei angen er mwyn sicrhau cydweithredu effeithiol a mwy o ddewis i ddisgyblion.

19. Roedd yr ASCL[10] o'r farn mai dewis costus oedd deddfwriaeth ac na fyddai deddfwriaeth ar ei phen ei hun yn dod dros y rhwystrau gwirioneddol a oedd yn atal yr amcanion polisi rhag cael eu cyflawni. Roedden nhw o'r farn y dylai "statutory guidance and monitoring by Estyn" fod yn hen ddigon i sicrhau'r nod a ddymunid. Ategodd NAHT Cymru[11] y farn bod deddfwriaeth yn ddrud ac yn llyncu amser. Doedden nhw ddim yn teimlo bod angen deddfu ar hyn o bryd, gan ofyn am "clarification of the evidence that legislation is required."

20. Gwnaeth NAHT Cymru[12] y pwynt hwn: "compulsion and collaboration are contradictory", gan gyfeirio at y cydweithredu effeithiol a oedd eisoes yn digwydd ac at fantais sicrhau bod ymarferwyr yn mynd ati i gydweithredu o'u gwirfodd. Roedden nhw o'r farn bod yna berygl bod gorfodi yn creu set arall o rwystrau, gan rybuddio hefyd yn erbyn gweld "collaborative working as an end in itself, irrespective of the costs and benefits to learners." [13]

21. Cyfeiriodd UCAC[14] ac eraill at yr angen am fwy o bwyslais ar "sicrhau safon cyrsiau nid yn unig sicrhau bod ystod eang o gyrsiau ar gael". Credai CBAC[15] fod y Mesur arfaethedig yn canolbwyntio ar ad-drefnu yn hytrach nag ar wella'r ddarpariaeth ac na fyddai ad-drefnu'n bodloni'r un amcanion ag y byddai agenda gwella yn rhoi sylw iddyn nhw.

22. Mynegodd CBAC[16] bryderon hefyd y gallai ffocws y Mesur arfaethedig greu canlyniadau annisgwyl, gan ddweud:

> "There are many aspects of detail that need real care, because of the risk of a set of unintended consequences, not least where the effort of a range of people goes, especially education managers within schools and colleges, local authorities, the Welsh Assembly Government and even awarding bodies; there is a real risk that the attention shifts to counting and categorising and away from educational outcomes."

23. Mynegodd UCAC[17] bryderon bod perygl gosod gormod o bwyslais ar gyrsiau galwedigaethol gan ddweud bod "rhaid diogelu'r pynciau mwy traddodiadol yn y cwricwlwm lleol ... [ac] … nad dim ond dilyn cyrsiau "galwedigaethol" sydd yn arwain at fyd gwaith!" Rhybuddiodd UCAC hefyd yn erbyn paratoi disgyblion 14-16 ar gyfer un gweithle yn unig:

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 18
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig LS20
[12] Cofnod y Trafodion paragraff [45] 13 Hydref 2008
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 20
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 15
[15] Cofnod y Trafodion paragraff [198] 25 Medi 2008
[16] Cofnod y Trafodion paragraff [284] 25 Medi 2008
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 15

> "Gwell rhoi blas i ddisgyblion yr oedran yma o bosibiliadau ond dylai'r pwyslais cyn-16 oed fod ar addysg, nid hyfforddiant ar gyfer y gweithle."

Ategwyd y farn hon gan ASCL Cymru[18] a ddywedodd:

> "The curriculum for students of compulsory school age should remain focused on the development of generic skills rather than overly narrow job specific skills."

24. Rydym yn cydnabod pryder rhai na fydd deddfu ohoni'i hun yn hybu cydweithredu ond mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod yna ewyllys ar draws y sector i wella lefelau cyrhaeddiad, cynyddu'r dewis i fyfyrwyr a sicrhau bod y ddarpariaeth 14-19 yn paratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth fedrus iawn neu addysg uwch.

25. Crynhowyd yr angen am ddeddfwriaeth gan Syr Adrian Webb[19] a ddywedodd:

> "The measure is essential; it is crucial that we underpin the 14 to 19 pathway policy with a legal structure."

Aeth yn ei flaen i ddweud:

> "However, you will know as well as I that legislation can only achieve certain things – it certainly will not transform our education system on its own – and there is a huge need for successful implementation. "

26. Fel yr amlinellwyd uchod, at ei gilydd, rydym o'r farn bod y dystiolaeth a gawsom yn ategu'r angen i ddeddfu er mwyn sicrhau bod cydlafurio mwy effeithiol yn digwydd.

[18] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 18
[19] Cofnod y Trafodion paragraffau [11 a 12] 4 Tachwedd 2008

## SYLWADAU PENODOL AR Y DARPARIAETHAU

**<u>Llunio cwricwla lleol</u> (adrannau 4 a 5 ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 – adrannau 21 a 22 ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed)**

27. Mae adrannau 4 ac 21 yn gwneud darpariaeth ar gyfer llunio cwricwla lleol drwy ddiwygio Deddfau perthnasol y Deyrnas Unedig. Yn achos disgyblion Cyfnod Allweddol 4, mae'r diwygiadau'n cyfeirio at Ddeddf Addysg 2002 ac yn achos myfyrwyr 16 i 18 oed maen nhw'n cyfeirio at Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

28. Mae'r diwygiadau'n caniatáu mwy nag un cwricwlwm lleol ym mhob awdurdod addysg lleol. Mater i'r awdurdodau addysg lleol yw llunio'r cwricwla lleol yn achos disgyblion Cyfnod Allweddol 4 a mater i Weinidogion Cymru yw llunio'r cwricwla lleol yn achos myfyrwyr 16 i 18 oed. Rhaid i'r cyrff hyn ddynodi hefyd pa gwricwlwm sy'n gymwys i ysgolion neu sefydliadau AB unigol (adrannau 5 a 22).

29. Rhaid i gyrsiau astudio mewn cwricwlwm lleol gynnwys cyrsiau yn y "meysydd dysgu". Dyma'r meysydd dysgu:

- mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg;
- busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith;
- gwasanaethau i bobl;
- celfyddydau, cyfryngau, diwylliant ac ieithoedd;
- dyniaethau, gwyddorau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer bywyd a gwaith.

Mae'r adrannau hyn hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymryd wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i isafswm o gyrsiau gael eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol neu mewn maes dysgu penodol. Gall rheoliadau bennu hefyd y gyfran isaf neu'r nifer isaf o gyrsiau galwedigaethol y mae'n rhaid eu cynnwys.

### Mwy nag un Cwricwlwm Ardal Leol mewn ardal awdurdod lleol

30. Ar gyfer un cwricwlwm ardal leol yn unig yn ardal pob awdurdod lleol yr oedd y cynnig deddfwriaethol gwreiddiol yn darparu ond cafodd y Mesur arfaethedig drafft ei ddiwygio i ganiatáu i fwy nag un gael ei lunio pe bai hynny'n briodol i'r ardal. Cafodd y diwygiad groeso eang yn y dystiolaeth a ddaeth i law, a bernid ei fod yn cynnig hyblygrwydd ac yn gwella'r dewis i ddysgwyr.

**31. Rydym yn cytuno y byddai'r dewis o gael mwy nag un cwricwlwm yn ardal awdurdod lleol yn rhoi hyblygrwydd a'i fod yn agwedd bwysig ar y Mesur arfaethedig.**

### Meysydd Dysgu

32. Cafwyd cytundeb bod y meysydd arfaethedig wedi'u disgrifio'n gymharol gywir a'u bod yn briodol. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth a oedd y Meysydd

Dysgu unigol yn ddigon eang, a oedd maint y meysydd yn anghyfartal ac a allai cyrsiau syrthio o fewn mwy nag un maes.

33. Serch hynny, roedd y tystion yn teimlo'n gryf fod angen canllawiau manwl i hestru pa gyrsiau a allai ddod o fewn pob Maes Dysgu oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a hynny ar fyrder.

34. Cafwyd trafodaeth hefyd am y derminoleg sy'n gysylltiedig â chyrsiau, ac yn enwedig felly defnyddio'r termau "galwedigaethol" ac "academaidd".

35. Dywedodd rhai tystion ei bod yn hanfodol cytuno ar derminoleg newydd er mwyn helpu i sicrhau parch cydradd rhwng y gwahanol fathau o gyrsiau.

36. Dadleuai tystion eraill mai ansawdd y cyrsiau a oedd yn bwysig a bod y derminoleg yn llai pwysig o ran hybu parch cydradd. Dywedodd Syr Adrian Webb:[20]

> "My view about the whole issue of this kind of terminology is that, frankly, words, although they seem terribly important, are not. Some people would say, 'Do not use the word "vocational"; use some other word'. If you use some other word and the vocational programmes are not good, that word will be just as devalued as some people see 'vocational' as being devalued at present."

37. Nododd y Pwyllgor na fyddai rhai cyrsiau'n ffitio'n dwt i'r pum Maes Dysgu arfaethedig, neu y gallen nhw ddod o fewn dau faes, ond derbyniodd y dystiolaeth fod y meysydd dysgu arfaethedig, at ei gilydd, yn addas at eu diben.

**38. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau manwl yn ychwanegol at y pŵer i roi cyfarwyddiadau mewn perthynas â'r cyrsiau sy'n dod o fewn pob un o'r meysydd dysgu. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod rhaid peidio â chymhwyso'r meysydd yn anhyblyg a bod rhaid sicrhau mesur o hyblygrwydd.**

**39. Rydym yn ategu'n llwyr yr ymdrech i sicrhau parch cydradd rhwng cyrsiau "galwedigaethol" ac "academaidd". Rydym yn cytuno gyda'r farn bod terminoleg yn llai o bwnc llosg os yw cyrsiau'n berthnasol ac yn dda o ran eu hansawdd.**

### Isafswm cyrsiau

40. Cafwyd cefnogaeth eang i gyflwyno isafswm cyrsiau a chytundeb y byddai hynny'n darparu dewis i ddysgwyr ac yn helpu i ddiogelu'r dewis hwnnw.

41. Yn eu tystiolaeth lafar, dywedodd CBAC:[21]

[20] Cofnod y Trafodion paragraff [115] 4 Tachwedd 2008
[21] Cofnod y Trafodion paragraff [236] 25 Medi 2008

> "We see the minimum number concept as being a way of guaranteeing a certain amount of choice, which may well be necessary. . . On defining the minimum number, while the concept might be a worthy one, there are interesting issues about how it is defined."

42. Roedd hyn yn adlewyrchu safbwynt llawer o'r tystion. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a'r pryderon yn ymwneud â materion ymarferol cyflwyno'r isafswm o gyrsiau o fewn yr amserlen arfaethedig.

43. Mewn ymateb i bryderon yr Aelodau a'r tystion, rhoddodd y Gweinidog ddau bapur i'r Pwyllgor a roddodd fanylion yr isafswm cyrsiau y cytunwyd arnyn nhw gan y cydlynwyr Llwybrau Dysgu 14-19 yn ardal pob awdurdod lleol a'r amserlenni y cytunwyd arnyn nhw i gyflwyno'r isafswm cyrsiau ym mhob ardal. Mae'r papur perthnasol i'w weld yn Atodiad C.

44. Clywodd y Pwyllgor bryderon mynych hefyd y byddai'n llawer caletach sicrhau'r isafswm cyrsiau mewn ardaloedd gwledig. Roedd yna bryderon arwyddocaol na fyddai gan y rhai mewn ardaloedd gwledig gyfle cyfartal i ddilyn cyrsiau o'u dewis.

45. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch cyfrif cyrsiau cyfrwng Cymraeg at yr isafswm hawlogaeth. Dywedodd CBAC:[22]

> "We also have major issues with the view, from some quarters, that Welsh-medium delivery counts as an additional choice to English-medium delivery, as, again, that is only one choice for the young person. In no way do we want the situation of people claiming to be delivering a wider range of options because they are delivering in two languages. For any one young person, that is still only one choice, because no young person would choose both Welsh and English-medium education."

46. Rhoddodd y Gweinidog ragor o wybodaeth am hyn yn y papur i'r Pwyllgor[23] gan gadarnhau:

> "y bwriad polisi yw y dylai fod hawl sylfaenol i 30 cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn eu cyflwyno'n llawn yn 2012. Yn y cyswllt hwn bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn syrthio islaw trefniadau bandio yr awdurdodau lleol perthnasol ac yn symud tuag at yr hawl sylfaenol i 30 cwrs ar yr un raddfa ag ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr ardal o 2009 ymlaen"

47. Clywodd y Pwyllgor bryderon hefyd ynghylch *lefel* y cyrsiau a fyddai'n cyfrif at yr isafswm hawlogaeth. Er enghraifft, gellir ennill TGAU naill ai ar lefel un (graddau D ac E) neu lefel dau (graddau A-C), ac mae llawer o gyrsiau galwedigaethol yn cael eu cynnig ar lefel un. Mynegwyd pryderon na fyddai'r darparwr yn rhoi blaenoriaeth i gyrsiau lefel un pe na baen nhw'n cyfrif at yr

---

[20] Cofnod y Trafodio, paragraff [239] 25 Medi 2008
[23] LS(3)-07-08 – Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y Dirprwy Weinidog 14 Hydref 2008

isafswm hawlogaeth, ac y gallai hynny gyfyngu ar nifer y cyrsiau a fyddai ar gael i ddysgwyr ar lefel un.

48. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Gweinidog[24] wrth y Pwyllgor y byddai cyrsiau lefel un yn cyfrif at yr isafswm hawlogaeth pe na bai cwrs lefel dau yn yr un pwnc ar gael. Esboniodd hefyd ei fod yn ceisio taro cydbwysedd rhesymol rhwng annog dysgwyr i fod yn uchelgeisiol, drwy sicrhau bod ganddyn nhw gyfle i ddilyn y cyrsiau lefel uwch, a sicrhau bod y cyrsiau lefel un ar gael i'r rhai mai dyna'r lefel fwyaf priodol iddyn nhw.

**49. Rydym yn argymell y dylai dysgwyr gael yr hawl i astudio ar lefel un gan gydnabod bod angen hybu cyfranogiad mewn cyrsiau lefel dau lle bo'n briodol.**

**50. Rydym yn cytuno y dylai'r Mesur arfaethedig roi pwerau i Weinidogion Crymu i bennu isafswm cyrsiau yn y cwricwlwm ardal leol ac y dylai'r isafswm cyrsiau fod ar gael yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

**51. Yn ychwanegol, hoffem gael eglurhad gan y Gweinidog dros Sgiliau a yw Bagloriaeth Cymru a'r pynciau craidd wedi'u cynnwys yn yr isafswm.**

[24] Cofnod y Trafodion paragraff [76] 14 Hydref 2008

**Hawlogaethau i astudio (adrannau 6-10 ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac adrannau 23–28 ar gyfer myfyrwyr 16-18 oed)**

52. Yr adrannau hyn sy'n nodi'r polisi allweddol y tu ôl i'r Mesur arfaethedig, gan roi'r hawl i ddisgybl ddewis dilyn cwrs neu gyrsiau astudio - gan greu llwybr dysgu unigol. Maen nhw hefyd yn gwneud darpariaeth i bennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad benderfynu ar hawlogaeth disgybl a/neu i ddileu'r hawlogaeth honno ar seiliau penodol. Mae'r seiliau dros benderfyniad cychwynnol ar hawlogaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- diffyg addasrwydd ar sail cyraeddiadau addysgol;
- ymarferoldeb rhesymol;
- amser teithio;
- gwariant anghymesur;
- iechyd a diogelwch.

53. Dim ond mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a gwariant anghymesur y caniateir i benderfyniad i ddileu hawlogaeth gael ei wneud. Rhaid i benaethiaid ysgol a phenaethiaid sefydliadau roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch penderfyniadau ar hawlogaeth a chaniateir i Weinidogion Cymru newid y seiliau yn y dyfodol os ydyn nhw'n dymuno.

54. O dan yr adrannau hyn, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu uchafswm y cyrsiau o fath penodol y caiff disgybl eu dilyn a chyflwyno system o ddyrannu pwyntiau i gyrsiau er mwyn pennu uchafsymiau i'w hastudio.

55. Mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ysgol bennu ysgol neu sefydliad perthnasol disgybl yn achos disgyblion cyfnod allweddol 4 (ar gais y disgybl).

**Dewis i ddysgwyr a'r seiliau dros benderfyniadau ar hawlogaeth**

56. Cafwyd cefnogaeth gref yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor i'r egwyddor gyffredinol o roi dewis i ddysgwyr. Cafwyd barn gyffredinol y dylid rhoi cyfrifoldeb i benaethiaid ysgol a phenaethiaid sefydliad dros ystyried cwrs addysg pob dysgwr. Er y dylai'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig ganiatáu dewis ehangach i'r mwyafrif o fyfyrwyr, mae'n rhesymol i'r darpariaethau ar hawlogaeth anelu at atal dysgwyr rhag gwneud dewisiadau annoeth.

57. Rhoddodd llawer o'r tystion groeso i gynnwys seiliau penodol dros benderfyniadau ar hawlogaeth (nad oedden nhw i'w cael yn y Mesur drafft) ond mynegodd rhai bryder ynghylch cynnwys "reasonable practicability" a "disproportionate expenditure" yn adran 8. Haerodd Syr Adrian Webb[25] y dylai paragrapffau (2) (b) a (d) yn adran 8 gael eu dileu neu o leiaf eu cymhwyso o dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Ddylen nhw ddim cael eu defnyddio fel "get-out clause". Yn ei farn ef:

[25] Cofnod y Trafodion paragraffau [121-123 ] 4 Tachwedd 2008

> "Entitlement should drive that collaboration and that range of choice and the cost-effectiveness of that range of choice. I do not think that you should limit entitlement because people have not started collaborating."

58. Wrth gyflwyno sylwadau ar y seiliau dros wrthod hawlogaeth, roedd Sgiliau Adeiladu Cymru[26] o'r farn na ddylai cyllid fod yn rhwystr sy'n atal hawlogaeth disgyblion, gan ychwanegu "funding should be addressed so that it is not a factor in allowing pupils to study".

59. Ychwanegodd Gyrfa Cymru[27] fod angen i benaethiaid ysgol ac arweinwyr coleg ddefnyddio'u pwerau feto yn achlysurol yn unig. Er eu bod yn cydnabod ei bod yn bosibl nad yw dysgwyr bob amser yn gwneud y dewisiadau gorau, roedden nhw o'r farn mai'r ffordd orau i ddatrys y broblem oedd "through the route of impartial advice and guidance with the negative decision only being made when all other routes have been exhausted". Doedden nhw ddim yn credu bod y Mesur arfaethedig yn cynnig digon o ddiogelwch yn hyn o beth.

60. Cawsom dystiolaeth[28] o blaid darparu ar gyfer proses apelio er mwyn osgoi gadael ymgyfreitha fel yr unig lwybr a fyddai ar gael i ddisgyblion neu rieni a fyddai'n anghytuno â phenderfyniad ar hawlogaeth neu ddileu hawlogaeth. Awgrymwyd y gallai'r mecanweithiau apelio presennol drwy gyrff llywodraethu fod yn ffordd addas ymlaen ac na fydden nhw'n rhy fiwrocrataidd. Roedd Llywodraethwyr Cymru [29] o blaid cynnwys proses apelio ar wyneb y Mesur.

61. Tanlinellodd y Gweinidog mor bwysig yw ymagwedd gyson o ran hawlogaeth gan ddweud y byddai'n cyhoeddi canllawiau i benaethiaid ysgolion a phenaethiaid sefydliadau er mwyn sicrhau bod y meini prawf yn cael eu diffinio. Roedd o'r farn bod y seiliau penodol dros wahardd a oedd wedi'u nodi yn y Mesur arfaethedig yn caniatáu i benderfyniadau gael eu seilio ar "local circumstances and autonomy".[30] Doedd e ddim yn credu y dylai'r seiliau "reasonable practicability" a "disproportionate expenditure" gael eu dileu o'r Mesur arfaethedig.

62. O ran apelau ynghylch hawlogaeth, roedd yn cytuno bod angen mecanwaith apelio ac y dylai'r broses gael ei nodi'n glir. Roedd yn credu y gallai hynny gael ei wneud drwy ganllawiau ond roedd yn agored i awgrymiadau eraill ynghylch trafod apelau.[31]

**63. Rydym o'r farn y gallai paragraffau (2)(b) ac (c) yn adran 8 gael eu defnyddio'n llawer rhy hawdd fel cymalau dianc lle ceir oedi wrth sicrhau cydweithredu. Rydym yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio er mwyn dileu'r sail "reasonable practicability" a "disproportionate expenditure" mewn perthynas â phenderfynaid**

[26] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 3
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 21
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 17; Cofnod y Trafodion paragraffau [65, 288] 25 Medi 2005;Cofnod y Trafodion, paragraff [127] 13 Hydref 2008
[29] Cofnod y Trafodion paragraff [65] 25 Medi 2005
[30] Cofnod y Trafodion paragraff [28] 13 Tachwedd 2008
[31] Cofnod y Trafodion paragraff [32] 13 Tachwedd 2008

**pennaeth ysgol ar hawlogaeth er mwyn sicrhau bod yna bwysau ar ysgolion a sefydliadau AB i fod yn wirioneddol gydweithredol.**

**64. Rydym yn argymell y dylid gwneud darpariaeth yn y Mesur arfaethedig ar gyfer proses apelio mewn perthynas â phenderfyniadau penaethiaid ysgolion ar hawlogaeth a phenderfyniadau i ddileu hawlogaeth, gan nodi'r manylion mewn rheoliadau.**

**65. Ymhellach, dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir mewn perthynas â hawlogaeth wneud darpariaeth i sicrhau bod disgyblion wedi cael cyngor a chanllawiau diduedd ac mai dim ond ar ôl i bob llwybr arall gael ei ddihysbyddu y dylai feto pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad gael ei ddefnyddio.**

**Uchafswm cyrsiau astudio**

66. Cafodd y cynnig y dylid sefydlu isafswm o gyrsiau ei groesawu gan bawb ac mae rhagor o fanylion ar hyn wedi'i gynnwys yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Er hynny, cafwyd rhai pryderon ynghylch sefydlu uchafswm o gyrsiau (drwy system bwyntiau) i fyfyrwyr unigol. Nododd CBAC [32] fod uchafswm cyrsiau yn sicrhau "that no individual demands more than their share of resources" ond amheuai CBAC hefyd "whether it constrains in any way our ability to respond to gifted individuals".

**67. Rydym o'r farn bod angen i unrhyw system o bwyntiau a ddyrennir i gyrsiau fod yn deg a thryloyw ac rydym yn argymell y dylai unrhyw reoliadau i bennu uchafswm o gyrsiau roi digon o hyblygrwydd i beidio â chyfyngu ar ddisgyblion y bernir eu bod yn gallu dilyn cwrs astudio mwy ymestynnol. Rydym yn argymell y dylid monitro hyn a pharhau i'w adolygu'n rheolaidd.**

**Penderfynu ar "relevant school or institution" disgybl**

68. Er bod y Mesur arfaethedig yn darparu i benaethiaid ysgolion benderfynu ar y "relevant school or institution" i ddisgybl pan na fydd o oedran ysgol gorfodol mwyach, cafodd rhywfaint o bryder ei fynegi ynghylch ble y byddai'r cyfrifoldeb dros ddisgyblion yn gorwedd yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Os bwriedir i ddisgyblion gael addysg ar fwy nag un safle, rydym yn gofidio y gallai rhai disgyblion sy'n agored i niwed fod o dan fwy o anfantais gan lithro drwy'r rhwyd. Yn gorfforol fe allai fod yn bur ymestynnol i rai disgyblion iau eu trefnu eu hunain a'u hamser er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y fan lle mae angen iddyn nhw fod ac mae yna berygl y gallai rhai ddiflannu o'r system. Awgrymodd Llywodraethwyr Cymru [33] y byddai'r Mesur arfaethedig ar ei ennill pe bai yna "greater clarity to ensure that students are where they should be and are being cared for." Mae angen eglurder hefyd ynghylch y cyfrifoldebau dros ddatblygiad disgyblion, adroddiadau, ymgysylltu â'r rhieni, gofal bugeiliol, cofrestru ar gyfer arholiadau ac yn y blaen.

[32] Cofnod y Trafodion paragraff [236] 25 Medi 2008
[33] Cofnod y Trafodion paragraff [74] 25 Medi 2008

**69. Rhaid i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan y Mesur ddatgan yn glir y cyfrifoldebau dros ddyletswydd gofal tuag at ddisgyblion mewn perthynas â'u lles a'u cynnydd drwy'r ysgol (er enghraifft datblygiad disgyblion, adroddiadau, ymgysylltu â'r rhieni, gofal bugeiliol, cofrestru ar gyfer arholiadau etc.)**

**Gwahardd**

70. Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r adran hon, rydym hefyd wedi trafod gyda'r tystion y rheolau gwahanol sy'n gymwys i ysgolion a sefydliadau AB o ran gwahardd disgybl yn ffurfiol. Cafwyd rhyw awgrym bod hwn yn faes y byddai angen ei adolygu. Doedd hi ddim yn glir beth fyddai'n digwydd pe bai disgybl yn cael ei wahardd gan un sefydliad yn unig. Mae angen meddwl rhagor am effaith y rheolau ynghyklch gwahardd ar ddisgyblion ac athrawon yng ngoleuni'r ffaith y bydd disgyblion yn dilyn cyrsiau astudio mewn mwy nag un sefydliad. Dywedodd UCAC:[34]

> "With regard to excluded pupils, the arrangements are probably inadequate. . . We have recently heard the Children's Commissioner for Wales speaking about exclusions, unofficial exclusions, and other such problems. I do not think that this Measure goes far enough in dealing with all of those problems."
>
> Dywedodd yr ASCL:[35]
>
> "Again, it comes back to questions of consistency. If you are going to encourage cooperation, how will you ensure that you are singing from the same sheet about how you treat excluded pupils, deal with behavioural problems, and so on? Much more work will need to be done on that—nationally, at this level, but also locally—in order to have clear guidance on how the institutions will co-operate and what sort of policies they are going to adopt."

71. Cydnabu'r Gweinidog fod rheolau gwahanol yn gymwys i ysgolion a sefydliadau AB ond doedd e ddim yn rhag-weld y byddai angen dim newid yn y naill set o reolau na'r llall o ganlyniad i ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig.

**72. Mae'r Pwyllgor yn gofidio bod rheolau gwahanol yn gymwys mewn ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach o ran gwahardd disgyblion ac mae'n argymell y dylai'r Gweinidog roi sylw i'r mater hwn cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn.**

---

[34] Cofnod y Trafodion paragraff [138] 30 Medi 2008
[35] Cofnod y Trafodion paragraff [141] 30 Medi 2008

**<u>Cydweithio</u> (adrannau 11-13 ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac adrannau 29-31 ar gyfer myfyrwyr 16-18 oed)**

**Adrannau 11 a 29 – Cynllunio'r cwricwlwm lleol**

73. Mae adrannau 11 a 29 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm lleol drwy ddiwygio Deddf Addysg 2002 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Yr awdurdodau addysg lleol sy'n gyfrifol am gynllunio'r cwricwlwm i ddisgyblion 14-16 oed ac yn achos pobl ifanc 16-18 oed Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol amdano (gyda chymorth yr AALl perthnasol). Yn y ddau achos mae'r Mesur arfaethedig yn nodi'r personau hynny sy'n gorfod helpu awdurdod addysg lleol a Gweinidogion Cymru i gynllunio'r cwricwlwm neu'r cwricwla lleol, sef cyrff llywodraethu, penaethiaid ysgolion uwchradd a gynhelir a phenaethiaid sefydliadau addysg bellach yn yr ardal. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynllunio'r cwricwlwm.

74. Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth gref yn y dystiolaeth lafar a'r dystiolaeth ysgrifenedig i'r egwyddor o lunio cwricwla ardal leol a chanolbwyntiai'r rhan fwyaf o'r sylwadau ar fanylion sefydlu a chynllunio cwricwla ardal leol. Dywedodd CBAC:[36]

> "We certainly feel that the concept of a local curriculum is an important one, but we would see a strong local curriculum as one that delivers high-quality pathways that are relevant locally and which support wider aspirations."

75. Cydnabu'r tystion fod gwahanu'r prif gyfrifoldeb dros lunio'r cwricwla ardal leol rhwng awdurdodau addysg lleol yn achos disgyblion Cyfnod Allweddol 4 a Gweinidogion Cymru yn achos pobl ifanc 16 i 18 oed yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau cyfredol.

76. Er hynny, cafwyd cefnogaeth eang i'r *egwyddor* y dylid rhoi'r cyfrifoldeb dros gynllunio cwricwla ardal leol o 14 i 19 oed i un corff. Ategwyd y farn hon gan Lywodraethwyr Cymru:[37]

> "It makes sense, on the face of it, at any rate, for the planning for both age groups to be done by the same body, rather than for the 16 to 19 age group to be done centrally, as it were . . . It is as simple as that really. That was the basis of our evidence—to simply put the two together. . . it is a matter of having a single body at local level that has the final responsibility."

77. Serch hynny, cafwyd cydnabyddiaeth eang hefyd y byddai rhoi'r prif gyfrifoldeb dros lunio cwricwla ardal leol i bobl ifanc 14 i 19 oed i un sefydliad yn creu heriau ymarferol arwyddocaol.

---

[36] Cofnod y Trafodion paragraff [200] 25 Medi 2008
[37] Cofnod y Trafodion paragraff [31] 25 Medi 2008

78. Pe bai'r prif gyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdodau addysg lleol, cydnabuwyd y bydden nhw'n darparu elfen o atebolrwydd lleol a'u bod yn gyfrifol yn barod am gynllunio'r ddarpariaeth i ddisgyblion 14 i 16 oed. Ond roedd yna bryder y gallai fod yn anodd i rai o'r awdurdodau lleol lleiaf ddod o hyd i'r gallu a chafwyd awgrym y gallai clystyrau o awdurdodau addysg lleol, mewn rhai ardaloedd, yn bennaf cyfrifol am ardal, fod yn ateb ymarferol. Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd y byddai'n rhaid i'r awdurdodau addysg lleol weithio mewn cydweithrediad agos â'r colegau addysg bellach. Unwaith eto, dywedodd Llywodraethwyr Cymru:[38]

> "it is a matter of having a single body at local level that has the final responsibility. The legislation as drafted allows for that responsibility to be delegated. Obviously, it would need to be done in a co-operative way—it is not a matter of going back to the old days when FE was under the direct control of the LEAs; it is not that at all, and hopefully colleges would not fear that".

79. Cyfeiriodd rhai o'r tystion at rôl y Rhwydweithiau Dysgu 14-19 gan awgrymu eu bod yn ysgwyddo mwy o gyfrifioldeb dros gynllunio'r cwricwla a'r ddarpariaeth. Cyfeiriodd tystion eraill at y system o gonsortia a gynigiwyd gan Syr Adrian Webb yn *Argoelion Da a Chyflawniad, (Adolygiad Webb)*[39] gan awgrymu y gallai'r cyfrifoldeb dros gynllunio gael ei ddirprwyo i gonsortia lleol. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, dywedodd Estyn:[40]

> "It is really one of the trickiest issues in all of this. I think that the logic of local authorities managing the provision for 14 to 16-year-olds is clear. Realistically, they need to be the people who are taking the lead role in planning that. On provision for 16 to 19-year-olds, a lot will depend on what it actually means in practice to have Ministers controlling or taking the lead in developing that area, as it is currently put."

80. Cyfeiriodd Estyn[41] at y cynigion cyfredol ar gyfer gwaith cydweithredol i ddysgwyr 16 i 19 oed o dan bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant*.

> "However, I think that it is important that somebody provides a clear lead and is accountable for all co-ordination at the 16-19 stage. It is currently noted that Ministers have that responsibility, but how it will be delegated in practice and actioned at a local level are key to a lot of this."

81. Ar y cyfan, er y byddai llawer o dystion, yn ddelfrydol, yn hoffi gweld un corff yn gyfrifol am gynllunio trosiannol llyfn ar gyfer 14 i 19 oed, cafwyd cydnabyddiaeth bod y trefniadau cynllunio a gynigiwyd yn y Mesur yn anochel oherwydd y cyfrifoldebau cyfredol ac yn enwedig oherwydd y ddwy system gyllido gyfredol.

---

[38] Cofnod y Trafodion paragraff [31] 25 Medi 2008
[39] *Argoelion Da a Chyflawniad (Adolygiad Webb)*, Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
[40] Cofnod y Trafodion paragraff [41] 2 Hydref 2008
[41] Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru - Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru

82. Yn ei dystiolaeth ef i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:[42]

> "At the moment, the law is such that responsibility rests with the LEAs for those of compulsory school age, while the responsibility for 16 to 18-year-olds who are in colleges and school sixth forms rests with Welsh Ministers. We could consider having a more unified approach. I am not aware of our having given serious thought to that sort of delegation. We are confident that, in the partnership that has developed thus far between the key stakeholders and us as a Welsh Assembly Government, we are able to knit everything together adequately and properly and to take this agenda forward with the sort of consistent approach right across Wales that will produce the required benefits. We are open to ideas, as we have been through the process of developing 14 to 19 learning pathways, and there have been changes along the way when views have been expressed that we have found compelling. We will consider all of the evidence that is given throughout this process."

83. Rydym yn cytuno â'r farn ei bod yn rhesymegol cael un corff cyffredinol a chanddo gyfrifoldeb cyffredinol dros gynllunio'r ddarpariaeth i ddysgwyr 14 i 19 oed. Rydym yn cydnabod bod y trefniadau a gynigir yn y Mesur yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau cyfredol.

**84. Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros gynllunio'r cwricwla ardal leol i bobl ifanc 16 i 19 oed i'r awdurdodau addysg lleol (AALl) ond y dylai Gweinidogion Cymru gadw'r pŵer i gymeradwyo'r cynlluniau a gynigir gan yr AALl.**

### Rôl rhanddeiliaid allweddol yn y broses gynllunio

85. Awgrymodd sawl tyst y dylai rhanddeiliaid allweddol, heblaw'r rhai sydd eisoes wedi'u cynnig gan y Mesur, gael rôl ddeddfu wrth gynllunio'r cwricwla ardal leol. Awgrymodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr y dylai'r dysgwyr gael eu cynrychioli yn y broses gynllunio[43].

86. Dadleuai Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru[44] yn gryf hefyd y dylai cynrychiolwyr darparwyr dysgu wedi'i seilio ar waith gael eu cynnwys yn y rôl ddeddfu wrth lunio cwricwla a chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno'r ddarpariaeth.

87. Awgrymodd cynrychiolwyr y Cynghorau Sgiliau Sector[45] y byddai ganddyn nhw ran werthfawr i'w chwarae yn y broses gynllunio.

88. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog[46] fod llawer o randdeiliad allweddol yn cael eu cynnwys drwy bartneriaethau Rhwydwaith Dysgu 14-19,

[42] Cofnod y Trafodion paragraff [47] 14 Hydref 2008
[43] Cofnod y Trafodion paragraff [298-299] 25 Medi 2008
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 5
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 11
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig LS(3)-07-08(p.1) 13 Hydref 2008

gan gynnwys colegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant preifat, y sector gwirfoddol, awdurdodau lleol, penaethiaid ysgolion, cyrff llywodraethu a'r sector busnes.

**89. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 ar gyfer dyletswydd statudol newydd i ymgynghori â'r sector busnes, darparwyr dysgu sydd wedi'i seilio ar waith a chynrychiolwyr myfyrwyr wrth gynllunio'r cwricwla ardal leol.**

**Adrannau 12, 13, 30 ac 31 – Cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio**

90. Er mwyn cynyddu gymaint ag y gellir ar y cyrsiau astudio a gynhwysir mewn cwricwlwm lleol, mae'r adrannau hyn yn diwygio Deddfau perthnasol y Deyrnas Unedig ac yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i 'ystyried trefniadau cydweithredu' a lle deuant i'r casgliad mai trefniadau cydweithredu fyddai'n sicrhau'r nifer uchaf o gyrsiau mae'n rhaid iddyn nhw 'geisio gwneud hynny' Ystyr 'trefniadau cydweithredu' yw trefniant lle bydd un corff yn darparu cwrs astudio ar ran corff llywodraethu ysgol a gynhelir. Mae'r AALl perthnasol o dan ddyletswydd hefyd i ystyried a ddylen nhw wneud trefniadau ar ran cyrff llywodraethu er mwyn cynyddu gymaint ag y gellir ar y cyrsiau sydd ar gael.

91. Pan fo corff llywodraethu'n gwneud cynnig i sefydliadau addysg bellach ynghylch cydweithredu, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad perthnasol ystyried y cynnig.

92. Darperir hefyd ar gyfer rhoi sylw i unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau a roddir o dan yr adrannau hyn.

**Dyletswydd i ystyried trefniadau cydweithredu**

93. Roedd y "ddyletswydd i ystyried cydweithredu" wedi'i chryfhau o'i chymharu â'r Mesur drafft gwreiddiol ond clywodd y Pwyllgor nifer o safbwyntiau gwahanol ynghylch a ddylai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau ymhellach byth er mwyn hybu cydlafurio.

94. Cytunodd rhai tystion, er enghraifft Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru[47] a Llywodraethwyr Cymru[48] fod y ddyletswydd i *ystyried* cydlafurio yn ddigon cryf ac y gellid cael rhwystrau lleol dilys, a fyddai yn y pen draw yn atal cydlafurio lleol.

95. Awgrymodd UCAC[49] y gallai rôl yr awdurdodau lleol i hybu cydlafurio, mewn ysgolion ac mewn colegau addysg bellach, gael ei chryfhau.

96. Cydnabu sawl tyst, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,[50] na ddylai ffiniau'r awdurdodau lleol fod yn rhwystr sy'n atal cydlafurio:

[47] Cofnod y Trafodion paragraff [55],30 Medi 2008
[48] Cofnod y Trafodion paragraff [84] 25 Medi 2008
[49] Cofnod y Trafodion paragraff [60] 30 Medi 2008

"I think that there is a commitment on the part of local government to transcend these boundaries."

97. Awgrymodd Syr Adrian Webb[51] y gallai'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau drwy ychwanegu dyletswydd ac atebolrwydd i benaethiaid ysgolion a phenaethiaid sefydliadau gydlafurio:

"So, I would build in accountability for headteachers and governing bodies. There is the clause about considering collaboration in order to maximise rather than achieving the minimum, but I would build in an accountability to collaborate to deliver the minimum and I would also strengthen that a little."

98. Awgrymodd Syr Adrian hefyd[52] y dylai dyletswydd ac atebolrwydd gael eu gosod yn y Mesur arfaethedig ar benaethiaid ysgolion a phenaethiaid sefydliadau i wella lefelau sgiliau sylfaenol eu sefydliadau:

"If you place a legal duty on heads to drive basic skills and make them accountable for that, you will not transform things overnight, but you will transform minds and behaviours."

99. Rhoddodd nifer o dystion sylw hefyd i bethau a fyddai'n hwb i gydymffurfio ac yn atalfa i gydymffurfio. Awgrymodd Llywodraethwyr Cymru,[53] er enghraifft, y gallai cynnydd mewn arian gael ei ddefnyddio i gydnabod ymrwymiad pendant i weithio mewn partneriaeth ac ar y llaw arall y gallai Estyn enwi diffyg cydlafurio fel rhan o'u proses arolygu.

**100. Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r Mesur arfaethedig o ran cydlafurio. Dylai'r Mesur arfaethedig osod "dyletswydd i gydlafurio" yn hytrach na "dyletswydd i ystyried cydlafurio". Ymhellach, bydd angen gwelliannau er mwyn sicrhau na fydd cwricwla lleol na chydlafurio yn cael eu cyfyngu gan ffiniau'r Awdurdodau Lleol.**

**101. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig osod mwy o atebolrwydd ar benaethiaid ysgolion a phenaethiaid sefydliadau i sicrhau lefel benodol o sgiliau sylfaenol ymhlith disgyblion yn hytrach na dim ond dyletswydd i ystyried cydlafurio.**

### Rhwystrau sy'n atal Cydlafurio

102. Soniodd tystion dro ar ôl tro am eu hymrwymiad i egwyddor cydlafurio a chydweithredu gan gytuno mai dyna'r ffordd gywir i symud ymlaen. Er hynny, roedd trafodaethau manwl yn aml yn canolbwyntio ar y ffyrdd ymarferol i sicrhau cydlafurio a'r rhwystrau posibl yr oedd angen rhoi sylw iddyn nhw.

---

[50] Cofnod y Trafodion paragraff [212] 2 Hydref 2008
[51] Cofnod y Trafodion paragraff [42] 4 Tachwedd 2008
[52] Cofnod y Trafodion paragraff [41] 4 Tachwedd 2008
[53] Cofnod y Trafodion paragraffau [85 a 86],25 Medi 2008

## Strwythurau Cyllido

103. Cafodd y ddau ddull cyllido a’r ddau strwythur cyllido gwahanol ar gyfer y ddarpariaeth 14-16 a’r ddarpariaeth 16-19 eu henwi gan lawer o’r tystion fel y *prif rwystr i atal cydlafurio* o bosibl.

> “Trying to understand two funding formulae and how they work together is very difficult. What is certain is that the present system encourages competition between institutions. There is no doubt about that, because they can see that their bread and butter, and their future is in retaining pupils and students.” ATL[54]
>
> “The fact that you have two different systems does not help, because it complicates all types of planning. A funding system where you have per capita funding—funding for an individual—is not as flexible as having a funding system that follows individual courses, because an individual can go to different institutions to do different courses, and the money follows them.”
>
> “We have raised what is probably the major issue for us, namely changing the funding system, particularly for post-16 provision, so that it does not create perverse incentives or obstacles to pupils moving from one type of provider to another.” Estyn[55]

104. Er hynny, nid peth hawdd yw dod o hyd i ateb neu strwythur cyllido gwahanol.

> “The Education and Learning Wales arrangements and efforts to introduce a funding formula failed in the past. Despite the issues about how local authorities fund schools, it is a tried and tested method and I think that it is the best arrangement that we have and that we can find. Local authorities now operate within a three-year budgeting process, but post-16 education is funded on an annual basis and, clearly, that issue needs to be addressed. We need to look at a better way of funding post-16 learning, retaining the confidence of all providers but providing a more effective, efficient and streamlined process than the one that we have currently.” CLILC[56]

105. Rydym yn cydnabod yr effaith y mae’r strwythur cyllido cyfredol yn debyg o’i chael ar gydlafurio. Er bod llawer o’r tystion wedi enwi’r problemau sy’n gysylltiedig â hyn, ychydig yn unig a allai gynnig ddewis amen.

**106. Mae’r mwyafrif o’r Pwyllgor yn argymell y dylai’r Gweinidog adolygu’r strwythurau cyllido cyn i’r Mesur arfaethedig gychwyn, Anghytunodd Andrew R T Davies gan gredu y dylai’r mater hwn gael sylw cyn i’r Mesur arfaethedig fynd dim pellach.**

---

[54] Cofnod y Trafodion paragraff [64] 30 Medi 2008
[55] Cofnod y Trafodion paragraff [78] 2 Hydref 2008
[56] Cofnod y Trafodion Paragraff [172] 2 Hydref 2008

## Amserlenni cyffredin

107. Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau gwahanol ar roi amserlenni cyffredin ar waith. Dywedodd rhai tystion fod amserlenni cyffredin ar waith yn barod mewn rhai rhannau o Gymru ac na ddylai hyn gael ei weld fel rhwystr o bwys. Roedd eraill yn credu bod amserlenni cyffredin yn codi rhwystrau ymarferol sylweddol yr oedd angen rhoi sylw iddyn nhw.

108. Galwodd Syr Adrian Webb[57] am gryfhau'r Mesur arfaethedig drwy osod dyletswydd ac atebolrwydd ar benaethiaid ysgolion a phenaethiaid sefydliadau i hybu amserlenni cyffredin. Doedd Llywodraethwyr Cymru [58] ddim yn credu bod amserlennu yn broblem benodol:

> "There are issues about that, and some schools collaborating in clusters are finding difficulties with a mismatch in the timetabling. . . In the main, schools collaborating in clusters and colleges are sorting out between themselves what is required for the benefit of the pupils, and that is what it is all about."

Doedd yr ATL[59] ddim yn rhannu'r un farn â nhw:

> "On the timetable, first, the members to whom I have spoken who are responsible for timetabling, particularly in more rural areas, assure me that this would be a nightmare."

109. Er hynny, dywedodd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg[60] nad yw amserlenni cyffredin yn rhwystr mor enfawr ag yr awgrymir weithiau, er eu bod yn cytuno eu bod yn codi nifer o faterion ac y byddai cyflwyno amserlenni cyffredin, am resymau ymarferol, yn debyg o fod yn broses dwy neu dair blynedd.

110. Yn ei dystiolaeth yntau, eglurodd y Gweinidog[61] y gwahaniaeth rhwng amserlenni wedi'u cysoni ac amserlenni cyffredin:

> "Harmonised timetabling is what we are largely talking about in Wales, where, for example, you might have timetables fitting together on two days of the week, rather than a common timetable across the week. Common timetabling is unlikely to feature very much, because there are obvious difficulties; schools must deliver the national curriculum, which takes up a fair chunk of their time."

**111. Rydym yn argymell y dylai unrhyw reoliadau neu ganllawiau a wneir o dan y Mesur arfaethedig gyfeirio at yr angen am "amserlenni wedi'u cysoni" yn hytrach nag amserlenni "cyffredin".**

---

[57] Cofnod y Trafodion paragraff [39] 4 Tachwedd 2008
[58] Cofnod y Trafodion paragraff [59] 25 Medi 2008
[59] Cofnod y Trafodion paragraff [99] 30 Medi 2008
[60] Cofnod y Trafodion paragraff [147] 2 Hydref 2008
[61] Cofnod y Trafodion paragraff [131] 13 Tachwedd 2008

**Cludiant**

112. Mae nifer sylweddol o faterion ynglŷn â theithio a chludiant wedi'u henwi yn ystod y sesiynau tystiolaeth, er enghraifft:

- cost cludiant a'r cyfrifoldeb dros ei ddarparu, yn enwedig ar gyfer cyrsiau nad ydyn nhw ar gael yn y sefydliad addysgol agosaf;
- deddfwriaeth gyfredol y Cynulliad ynghylch Teithio gan Ddysgwyr;
- amserau teithio i ddysgwyr yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig neu i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- pa mor ddichonol yw ystafelloedd dosbarth symudol yn enwedig gydag offer ar gyfer cyrsiau galwedigaethol;
- pa mor ddichonol yw technoleg gwybodaeth, gan gynnwys fideo-gynadledda i leihau'r angen i deithio; a
- gofyniad bod rhaid i athrawon a darlithwyr deithio yn hytrach na dysgwyr

Cafodd rhai o'r materion hyn eu crynhoi gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr:[62]

> "Transport goes alongside timetabling. A lot of this stuff that we are talking about probably goes in the guidance, rather than in the Measure itself. However, there are issues around who provides the transport, whose responsibility it is, whether learners have to pay for this transport in any way, shape or form, what are the health and safety implications of travelling from one institution to the other, and whether there need to be wardens on buses, and so on."

113. Dydy deddfwriaeth gyfredol y Cynulliad, Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) ddim yn darparu ar gyfer teithio yn ystod y diwrnod ysgol nac ar gyfer cymorthdaliadau cludiant yn ôl ac ymlaen i sefydliad ysgol nad yw o reidrwydd yr ysgol neu'r coleg agosaf ond sy'n darparu cwrs y cytunwyd arno fel rhan o'r cwricwlwm ardal leol. Cododd UCAC [63] gwestiwn cost hefyd:

> "Mae'r Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) – y credaf ei fod yn mynd rhagddo ar hyn o bryd – yn nodi'n glir mai dim ond ar gyfer teithio i brif sefydliad addysg y disgybl ac oddi yno y telir y gost. Felly, pwy sy'n mynd i dalu am unrhyw drafnidiaeth yn ystod y dydd? Mae'n rhaid ystyried hynny hefyd."

114. Mewn ymateb i gwestiwn am yr anawsterau teithio ehangach mewn ardaloedd gwledig, pwysleisiodd y Gweinidog[64] y cyfleoedd a gynigir gan ddysgu rhithwir drwy ddefnyddio technolegau newydd a fideo-gynadledda gan gyfeirio at "blended learning approach". Siaradodd hefyd am dimau o athrawon peripatetig, "so that it is not the learner who is expected to travel all of the time; it is expected that teachers and lecturers will travel too".

---

[62] Cofnod y Trafodion paragraff [307] 25 Medi 2008
[63] Cofnod y Trafodion paragraff [148] 30 Medi 2008
[64] Cofnod y Trafodion paragraff [103] 14 Hydref 2008

**115. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi amlinelliad clir o sut mae'n bwriadu dod dros y cyfyngiadau ar gludiant y mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr wedi'u creu ac y dylai gwelliannau gael eu cyflwyno i'r Mesur arfaethedig hwn er mwyn sicrhau nad yw darparu cludiant a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny yn rhwystro cydlafurio a dewis i ddisgyblion. Ymhellach, dylai'r Gweinidog ddatgan yn glir pwy sy'n gyfrifol am y costau ynglŷn â darparu cludiant.**

116. Rydym yn cytuno'n gryf fod angen cynnig cymaint o ddewis ag y gellir i holl ddisgyblion Cymru ond rydym yn cydnabod, ac mae hyn wedi'i ategu gan y dystiolaeth a glywsom, nad oes un ateb i bob sefyllfa a bod cludiant yn rhwystr go iawn mewn rhai ardaloedd.

**117. Rydym yn argymell y dylai rhagor o ymchwil gael ei wneud er mwyn deall y materion a'r cyfleoedd, gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth, a allai hwyluso cydlafurio ac a allai helpu i leihau'r angen i deithio, er enghraifft:**

- **defnyddio TG a fideo-gynadledda;**
- **symud staff yn hytrach na disgyblion; a**
- **defnyddio ystafelloedd dosbarth symudol, peripatetig.**

**Roedd y mwyafrif o'r Pwyllgor yn credu y dylai'r gwaith hwn gael ei wneud cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn. Anghytunodd Andrew R T Davies gan gredu y dylai'r mater gael sylw cyn i'r Mesur arfaethedig fynd dim pellach.**

### Telerau, Amodau a Hyfforddiant i'r Staff

118. Mae tâl cydradd rhwng athrawon a darlithwyr coleg wedi'i sicrhau i raddau helaeth yn y blynyddoedd diwethaf, ond cyfeiriodd rhai tystion, er enghraifft Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr[65] at delerau ac amodau gwahanol mewn ysgolion a cholegau fel rhwystr posibl a allai atal cydweithio a chydlafurio:

> "We would also see a major issue relating to the terms and conditions of school and further education staff. Those would need to be reconciled; otherwise, you could have a situation in which you had staff on different terms and conditions delivering in the same areas."

119. Nododd y Pwyllgor hefyd for Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Lloegr) 2007 wedi'u cyflwyno yn Lloegr. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys cyflwyno statws proffesiynol i athrawon addysg bellach, cyflwyno cymhwyster newydd wedi'i seilio ar safonau addysgu proffesiynol newydd gan gynnwys cymhwyster Tystysgrif a chymhwyster Diploma ac amserlen ddiwygiedig i bersonau perthnasol gydymffurfio.

**120. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried darparu hyfforddiant y gallai fod ar athrawon a darlithwyr ei angen mewn**

[65] Cofnod y Trafodion paragraff [10] 30 Medi 2008

**perthynas â chydlafurio cydweithredol a darparu cyrsiau ar gyfer y cwricwla ardal leol.**

**121. Rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno rheoliadau yng Nghymru, yn debyg i Reoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Lloegr) 2007 i sicrhau y gall athrawon addysg bellach ennill cymwysterau proffesiynol pellach a gwella'r cyfleoedd ddatblygu proffesiynol sydd ar gael iddyn nhw. Roedd y mwyafrif o'r Pwyllgor yn credu y dylai'r rhain gael eu cyflwyno i'r Mesur arfaethedig gychwyn. Anghytunodd Andrew R T Davies gan gredu y dylai'r rheoliadau gael eu cyflwyno cyn i'r Mesur arfaethedig fynd dim pellach.**

**Cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i blant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig. (Adran 16)**

122. Mae ysgolion arbennig wedi'u hepgor o'r Mesur arfaethedig ond mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gymhwyso darpariaethau penodol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y gallen nhw gael eu defnyddio i gymhwyso'r cwricwlwm lleol at ysgolion arbennig.

123. Mae'r Pwyllgor yn awyddus iawn i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (yn ysgolion yn y brif ffrwd) gael cymryd rhan lawn yn y trefniadau cydlafurio newydd

124. Rydym yn pryderu bod y Mesur arfaethedig yn rhagdybio lefel uwch o allu i ymdopi â'i ddarpariaethau, er enghraifft i ymdopi â mwy o deithio a dilyn cyrsiau i ffwrdd o'r sefydliad cartref, ac y gallai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fod ar eu hennill o gael lefel uwch o gymorth i'w galluogi i gymryd rhan yn llawn. Ymhelaethwyd ar hyn gan UCAC[66] a ddywedodd:

> "Mae llawer o ymdrech wedi bod i sicrhau y gall disgyblion ag anableddau a phroblemau dysgu llai dwys gael eu dysgu yn y brif ffrwd. Gofidiaf na fydd y disgyblion hyn, os oes rhaid iddynt deithio i sefydliadau gwahanol, yn cael yr un mynediad i gyfleoedd â phobl eraill. Mae angen hyblygrwydd ar y bobl ifanc hyn, ond mae angen sefydlogrwydd hefyd, a rhaid edrych ar y materion hynny a sicrhau cysondeb."

**125. Nid yw'r Pwyllgor yn fodlon bod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r gallu i ddisgyblion mewn addysg brif-ffrwd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gymryd rhan yn y cyfleoedd y bydd y Mesur arfaethedig yn eu darparu. Cyn i'r Mesur gychwyn, rhaid i'r Gweinidog nodi'n glir y cyfleoedd a'r cymorth y mae angen iddyn nhw fod ar gael i ddisgyblion a rhieni.**

126. Mae'r Mesur arfaethedig yn caniatáu i'r Gweinidogion wneud rheoliadau i gymhwyso darpariaethau penodol, er enghraifft y cwricwlwm lleol, at ysgolion arbennig. Drwy'r weithdrefn negyddol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol y byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn cael eu gwneud.

**127. Rydym yn credu y dylai rheoliadau a wneir o dan adran 16 o'r Mesur arfaethedig gael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol er mwyn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud mwy o waith craffu arnyn nhw. Rydym yn gofyn am eglurhad gan y Gweinidog pam y mae'n credu mai'r weithdrefn negyddol sy'n briodol.**

[66] Cofnod y Trafodion paragraff [142] 30 Medi 2008

**Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr (Adrannau 37-39)**

128. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cyrff llywodraethu i ddarparu neu i sicrhau gwasanaethau cymorth i ddysgwyr, a chymryd rhan ynddyn nhw. Diffinnir 'Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr' fel gwasanaethau sy'n annog, yn galluogi neu'n helpu pobl ifanc i gymryd rhan effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant, i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth neu i gymryd rhan yn eu cymunedau.

129. Cafwyd dau fater allweddol a gododd mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Diffyg dealltwriaeth ynghylch beth yn union roedd y Mesur yn ceisio'i gyflawni oedd y naill ac roedd y llall yn ymwneud â'r angen i ddisgyblion gael cyngor a chymorth annibynnol.

130. Cyfeiriodd Estyn[67] at rôl yr anogwyr dysgu a amlinellwyd yng nghanllawiau'r Llywodraeth *Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau II*, gan nodi bod y Canllawiau'n dweud:

> "'Learning Coaches will work with individual learners on a one-to-one basis or in small groups, to establish goals and to develop a Learning Pathway for each learner that will include formal, non-formal and informal opportunities phased over time." In addition, it is important that the learning coach is impartial in terms of advice and support given to learners. It will take into account experiences outside the learning setting, and which help in realising individual ambitions."

Ym marn Estyn: "this is what a learning coach should be doing and the proposed Measure does not reflect this."

131. Amlinellodd Gyrfa Cymru[68] yr ansicrwydd a oedd yn bodoli ynghylch ai rôl ynteu swyddogaeth oedd gweithgarwch anogwr dysgu. Roedden nhw o'r farn y dylai Strategaeth Cymorth i Ddysgwyr, yn hytrach na Strategaeth Anogwyr i Ddysgwyr amlinellu'n glir rôl y nifer fawr o weithwyr proffesiynol a oedd eisoes yn cefnogi'r dysgwr, gan amlinellu sut mae swyddogaeth anogwr dysgu'n ychwanegu at y cymorth sy'n cael ei ddarparu. Dadleuai Gyrfa Cymru y dylai cymorth i ddysgwyr fod yn "learner centred in its focus".

132. Roedd fel petai yna ddryswch ar hyn o bryd ynglŷn â'r cymorth sydd i'w ddarparu i bobl ifanc 14-19 oed gan fod un prifathro wedi dweud wrthon ni fod pump neu chwech o bobl wahanol wrthi'n rhoi cyngor gyrfaoedd a chymorth bugeiliol i'r disgyblion yn ei ysgol e.[69]

133. Cafwyd rhywfaint o bryder y byddai'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn teimlo eu bod wedi'u rhwymo gan anghenion eu

---

[67] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 10
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig LS21; Cofnod y Trafodion paragraff [397] 2 Hydref 2008
[69] Cofnod y Trafodion paragraffau [162- 165] 13 Hydref 2008

cyflogwyr yn hytrach na rhoi anghenion y disgybl yn gyntaf. Gwnaeth Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru [70] y pwynt:

> "The employment relationship does bring with it a number of expectations and we believe that the learning coach must be employed by an organisation which is not directly involved in the delivery of the 14-19 curriculum".

134. Roedden nhw'n pryderu y byddai anogwyr unigol yn teimlo eu bod o dan bwysau i sicrhau "that a learning pathway developed for an individual learner would be based on the provision from their employer"

135. Cyfeiriodd Fforwm[71] at yr angen am gyngor diduedd ar yrfaoedd, gan haeru bod angen "stronger statement " yn y Mesur arfaethedig "setting out the requirement for impartial advice". Cyfeiriodd Fforwm at y ddarpariaeth a geir yn y Mesur Addysg a Sgiliau (Cymal 80) sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd yn San Steffan. Mewn perthynas â chyngor gyrfaoedd mae'n dweud:

*(2B) Any such information must be presented in an impartial manner, and*

> *(a) any such advice must be advice which the person giving it considers will promote the best interests of the pupils concerned; and*
> *(b) accordingly, in giving the advice, that person must not seek to promote, contrary to the pupils' best interests, the interests or aspirations of the school or of other persons or institutions'*

Awgrymodd Fforwm hefyd y gallai fod rhan i'w chwarae gan Estyn wrth arolygu ansawdd ac annibyniaeth y cyngor i ddisgyblion.

136. Roedd Syr Adrian Webb [72] o blaid ymagwedd debyg gan alw am ddyletswydd glir ar benaethiaid ysgolion a phenaethiaid sefydliadau i fod yn "accountable for ensuring that there is genuinely well informed and impartial advice about course options and career options".

137. Doedd gan CLILC[73] mo'r un pryderon am annibyniaeth ond fe amlinellon nhw'r angen am "professionalism and objectivity of those fulfilling the potential roles…". serch hynny, gwelodd CLILC fod angen "avoid the role as being seen as just an add-on to another role."

138. Ategodd yr ASCL[74] yr angen am gyngor annibynnol ond rhybuddio yn erbyn "someone parachuting into a class full of people whom they do not know…with no background information on that child."

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 8
[71] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 12; Cofnod y Trafodion paragraff [563] 2 Hydref 2008
[72] Cofnod y Trafodion paragraff [73] 4 Tachwedd 2008
[73] Cofnod y Trafodion paragraff [248] 2 Hydref 2008
[74] Cofnod y Trafodion paragraff [168] 13 Hydref 2008

139. Nododd y Gweinidog[75] fod y Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaeth yn hytrach nag unigolyn. Haerodd y byddai cymorth i ddysgwyr yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng nifer o weithwyr proffesiynol drwy'r ysgol gyfan. Roedd yn cytuno bod angen i sefydliadau unigol ddangos eu bod yn ddiduedd ac awgrymodd y gallai Gyrfa Cymru ddarparu'r didueddwch hwnnw er nad oedd yn glir o'i dystiolaeth sut roedd yn gweld Gyrfa Cymru'n gweithio ochr yn ochr â'r gweithwyr proffesiynol eraill a fyddai'n helpu i gyflawni'r "swyddogaeth" hon.

140. Roedd yn eglur o'r dystiolaeth fod yna ddryswch eang ynghylch darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Mae gennym bryderon difrifol ynghylch y diffyg eglurder a roddir yn y Mesur arfaethedig o ran gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ac ynghylch didueddwch y cyngor. Mae hon yn swyddogaeth o bwys aruthrol os bwriedir i ddisgyblion gael y gorau o gydlafurio. Heb y cymorth iawn i ddisgyblion, mae darparu rhagor o ddewis yn troi'n ymarfer biwrocrataidd pur. Rydym yn cytuno y dylai'r cymorth i ddysgwyr ganolbwyntio ar y dysgwyr.

141. Rydym yn pryderu bod y Gweinidog yn credu bod Gyrfa Cymru'n gallu cyflwyno'r holl gyngor annibynnol y mae ei angen. Er ein bod yn cydnabod bod gan Gyrfa Cymru ran bwysig iawn i'w chwarae, rydym yn ategu eu barn nhw bod cymorth i ddysgwyr yn golygu set ehangach o lawer o gynghorion a chanllawiau na chyngor ar yrfaoedd yn unig. Dylai'r ddarpariaeth fod yn ceisio cyflwyno strategaeth holistig ar gyfer cymorth i ddysgwyr, nid anogwyr dysgu yn unig.

**142. Rydym yn credu y bydd cymorth i unigolion yn allweddol ar gyfer llwyddiant y polisi Llwybrau Dysgu ac nid yw'n glir sut y caiff hwn ei gyflwyno drwy'r Mesur arfaethedig. Roedd y mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn bod rhaid i'r Gweinidog gyflwyno cynigion clir mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ddysgwyr cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn. Anghytunodd Andrew R T Davies gan gredu y dylai'r mater hwn gael sylw cyn i'r Mesur arfaethedig fynd dim pellach.**

**143. Yn ychwanegol, rydym yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio i sicrhau mai anghenion y dysgwyr sydd bwysicaf a bod unrhyw weithiwr proffesiynol sydd wrthi'n darparu neu'n cyflwyno gwasanaethau cymorth i ddysgwyr o dan ddyletswydd statudol i ddangos ei fod yn ddiduedd.**

**144. Rydym o'r farn y dylai datganiad o fwriad yn debyg i'r un a geir yng nghymal 80 o'r Mesur Addysg a Sgiliau gael ei gynnwys yn y Mesur arfaethedig mewn perthynas â'r holl wasanaethau cymorth i ddysgwyr, nid cyngor ar yrfaoedd yn unig.**

[75] Cofnod y Trafodion paragraff [37] 13 Tachwedd 2008

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

145. Mae'r tystion hefyd wedi enwi nifer sylweddol o faterion a fydd yn effeithio'n benodol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, er enghraifft:

- diffyg athrawon â chymwysterau addas ac yn enwedig darlithwyr addysg bellach a all gyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg;
- diffyg gwybodaeth am y galw am gyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;
- diffyg gwybodaeth am gyfleoedd pellach am yrfaoedd;
- yr angen i deithio'n bellach ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg; a
- nifer cyfyngedig o ddewisiadau cyrsiau o'u cymharu â'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

146. Soniodd UCAC[76] am y diffyg darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y Mesur arfaethedig:

> "Mae hynny'n peri gofid i ni oherwydd, yn amlwg, nid yw'r capasiti gennym ar hyn o bryd i roi'r un hawliau i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ag sydd gan ddisgyblion cyfrwng Saesneg."

Ategwyd eu pryderon gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg[77] a danlinellodd fod angen cydnabod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Mesur arfaethedig:

> "fod angen rhywbeth yn y Mesur i sicrhau bod gan y myfyrwyr hynny sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yr un hawliau â'r myfyrwyr sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Saesneg."

147. Tanlinellodd CBAC[78] bryderon ynghylch darparu isafswm o gyrsiau:

> "In no way do we want the situation of people claiming to be delivering a wider range of options because they are delivering in two languages. For any one young person, that is still only one choice"

**148. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud darpariaeth ar wyneb y Mesur arfaethedig i ddysgwyr gael hawlogaeth i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg os dewisan nhw.**

149. Mynegodd Fforwm[79] ymhlith eraill bryder bod y Mesur arfaethedig yn symud ymlaen cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Dywedodd Fforwm fod rhaid i'r datblygiadau ynglŷn â chydlafurio gydblethu â'r Strategaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, y disgwylir ei gyhoeddi yn 2008-09:

[76] Cofnod y Trafodion paragraff [13] 30 Medi 2008
[77] Cofnod y Trafodion paragraff [39] 9 Hydref 2008
[78] Cofnod y Trafodion paragraff [239] 25 Medi 2008
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 12

> "DCELLS' forthcoming Welsh-medium Education Strategy will need to consider how the range of options at the age of 14 and 16 can be made available through the medium of Welsh and/or bilingually."

**150. Yng ngoleuni'r dystiolaeth ar hyn, rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi ei strategaeth ar Addysg Gymraeg cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn. Bydd hynny'n sicrhau bod modd i ddarpariaethau Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg gael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy cyffredinol.**

## Ysgolion Ffydd

151. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth y Gwasanaeth Addysg Gatholig,[80] yn pwysleisio nifer o bwyntiau gan gynnwys bod angen i'r awdurdodau lleol weithio ar draws ffiniau'r awdurdodau lleol yn ogystal â'r canlynol:

> "The values and ethos of schools with a religious character need to be taken into account in any proposed local co-operations."

ac

> "Account must be taken of the implications of large catchment areas for Catholic schools,"

152. Cafodd safle ysgolion ffydd ei drafod hefyd gan y Pwyllgor gydag Undeb Cenedlaethol y Prifathrawon a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau.[81] Cytunwyd bod y cyfleoedd a'r rhwystrau a oedd yn wynebu ysgolion ffydd yn debyg iawn i'r rhai sy'n wynebu ysgolion cyfrwng Cymraeg:

> "It is a similar situation to the Welsh-medium issue—they should have the ability, and the capacity, to offer as wide a range of choices as for the rest of the school population, through the accepted framework. It is a potential issue, because they are geographically isolated."

**153. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog roi rhagor o ystyriaeth i effaith y Mesur arfaethedig ar ysgolion ffydd cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn.**

---

[80] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 7
[81] Cofnod y Trafodion paragraff [198] 13 Hydref 2008

**<u>Cychwyn</u> (Adran 46)**

154. Does dim dyddiadau cychwyn yn y Mesur arfaethedig a chaiff Gweinidogion Cymru ddod ag adrannau gwahanol i rym ar adegau gwahanol. Yn y cynllun gweithredu *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru Gorffennaf 2008*[82] dywedodd y Llywodraeth "Bydd y broses o weithredu'r Mesur yn dechrau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 o fis Medi 2009 gan ei gyflwyno'n llawn o fewn 4 blynedd".

155. Er eu bod yn cefnogi nodau'r Mesur arfaethedig, roedd yr undebau athrawon[83] yn benodol yn unfryd yn eu barn bod cychwyn o fis Medi 2009 ymlaen yn rhy uchelgeisiol. Nododd yr undebau yr amrywiol fanylion ymarferol y byddai angen eu hystyried megis amserlennu, cludiant (amser a chost), cyllid, datblygu cyrsiau dwyieithog, gallu'r rheolwyr, ac anghysondeb o ran telerau ac amodau athrawon a darlithwyr ymhlith pethau eraill.

156. Pwysodd UCAC[84] am "ystyriaeth ofalus iawn o amseriad gweithredu unrhyw Fesur. Roedden nhw o'r farn "nad yw'r capasiti gan Gymru ar hyn o bryd i weithredu gofynion y Ddeddf fel mae'n sefyll."

157. Barn NAHT Cymru[85] oedd: "we are pushing too hard, too fast on this, as opposed to allowing the evolution of the very good co-operative partnership arrangements that are already in place.

158. Cynigiodd yr ASCL[86] "delaying compulsion for three years…. [and]… if there are any areas of Wales that have not complied with the requirements to deliver learning pathways….tackle them then, rather than rushing in now with compulsion for everybody."

159. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Estyn:[87]

> "We fel that there needs to be a sufficiently long lead-in time before the proposals in the Measure can commence. It is likely that a commencement date of 2009 is unrealistic, given all the arrangements that need to be set up to enable learners to choose their course."

160. Er hynny, wrth gymryd tystiolaeth gan bobl eraill daeth yn glir nad oedd y Gweinidog yn cynnig bod y cynllun yn cael ei roi ar waith yn llawn o fis Medi 2009. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ganddo am hyn ac mae wedi rhoi manylion am fynd ati'n raddol, fesul grŵp blwyddyn a hefyd drwy osod yr awdurdodau lleol mewn bandiau, gan osod y rhai a deimlai'n fwyaf abl i fwrw ymlaen o fis Medi 2009 ym Mand A. Bydd angen i awdurdodau Band A ddarparu dewis o 28 o gyrsiau i ddisgyblion Blwyddyn 10 o fis Medi 2009

---

[82] http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning /skillsthatworkforwales/stwfwfinalcymraeg.pdf?lang=en
[83] Cofnod y Trafodion 30 Medi a 13 Hydref 2008
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 15
[85] Cofnod y Trafodion paragraff [165] 30 Medi 2008
[86] Cofnod y Trafodion paragraff [185] 30 Medi 2008
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig LS 10

ymlaen gydag awdurdodau Band B ac C yn darparu 26 a 24 yn y drefn honno. Ceir manylion llawn y gweithredu graddol arfaethedig yn Atodiad C.

161. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei rhyddhau, cysylltodd y Pwyllgor ag Estyn[88] i ofyn eu barn am gynigion y Gweinidog. Dywedodd Estyn:

> "The proposals mean that no local authority is required to implement the full minimum entitlement in 2009 and all will have reached the full minimum entitlement by 2012. I think that these proposals are sensible and appropriate. I am pleased to see that the assignment of local authorities to bands has been based on discussion with them and that each of the local authorities have agreed a provisional banding position. "

162. Roedd Llywodraethwyr Cymru [89] yn credu bod mynd ati'n raddol yn briodol: "It seems rational to start with year 10. They have just taken their options and are starting to work towards their qualifications. Phasing it in over four or five years is a logical approach".

163. Roedd Gyrfa Cymru[90] o blaid gweithredu'n raddol gan gydnabod "…you need to change sufficiently to cause a stretch while ensuring that it is still reachable, otherwise you have set yourself up for failure….[and]… we support a phased roll-out, because we need to get the travel of direction started…".

164. Er hynny, dywedodd yr ASCL[91] wrthon ni nad oedd mynd ati'n raddol yn newid fawr ddim ar eu pryderon nhw, gan ddweud "…it is not a matter of whether we are looking at 24,26 or 28 courses….We are talking about the time in which we can build strategic relationships with a number of partners. " Ategwyd y farn hon gan yr NAHT[92] a ychwanegodd "…the planning phase would be rushed… each institution will find it extremely difficult to deliver whatever is then determined in what is a two-to-three month planning period." Teimlai'r ASCL a'r NAHT y byddai mynd ati'n raddol gan ddechrau ym mis Medi 2010 yn fwy priodol.[93]

165. Barn y Gweinidog[94] oedd y gallai'r amserlen gael ei gwireddu. Roedd o'r farn bod y gwaith a oedd eisoes wedi'i wneud gan y Llywodraeth gyda'r Rhwydweithiau 14-19 yn golygu bod cryn gynnydd wedi'i wneud yn barod. Dywedodd: "They [Rhwydweithiau 14-19] are the key stakeholders on implementation, because they represent those who will have to do the implantation. … [and]… we have worked with them closely… on the timetable, and on the phasing and banding… So with all that background work, we are confident that this proposed Measure is achievable."

---

[88] Atodiad E – Gohebiaeth oddi wrth Estyn
[89] Cofnod y Trafodion paragraff [13] 25 Medi 2008
[90] Cofnod y Trafodion paragraff [354] 2 Hydref 2008
[91] Cofnod y Trafodion paragraff [12] 13 Hydref 2008
[92] Cofnod y Trafodion paragraff [16] 13 Hydref 2008
[93] Cofnod y Trafodion paragraff [29-30] 13 Hydref 2008
[94] Cofnod y Trafodion paragraff [22] 14 Hydref 2008

166. Er gwaethaf ymagwedd y Gweinidog at fynd ati'n raddol, roedd mwyafrif arwyddocaol o'r tystion yn pryderu ynglŷn â'r amserlen ar gyfer gweithredu. Mae'n ymddangos bod gwir ddiffyg dealltwriaeth, ymhlith proffesiynolion addysgu yn benodol, ynghylch cynigion y Gweinidog ar gyfer gweithredu a bwlch clir rhwng yr honiadau sy'n cael eu gwneud gan yr awdurdodau lleol ynghylch parodrwydd i ddechrau gweithredu'n raddol o fis Medi 2009 a pharodrwydd a dealltwriaeth y proffesiynolion addysgu hynny. Yn ychwanegol, nid yw'n ymddangos bod rôl y Rhwydweithiau 14-19 yn y dyfodol wedi'i deall yn llwyr gan yr ymarferwyr a gynrychiolir ar y Rhwydweithiau hynny.

167. Ar sail tystiolaeth y Gweinidog doedd hi yn glir pryd y mae'n disgwyl gwneud y rheoliadau angenrheidiol a chyhoeddi canllawiau ond mae'n eglur na all hynny ddigwydd cyn i'r Mesur arfaethedig gael ei basio gan y Cynulliad a sicrhau'r Gymeradwyaeth Frenhinol. Bydd yr amserlen ar gyfer deddfu yn golygu nad yw'n debyg y ceir y Gymeradwyaeth Frenhinol tan fis Ebrill 2009 o leiaf. Mae'n ymddangos nad yw hynny'n rhoi fawr ddim amser i'r ysgolion a'r colegau baratoi ac fe allai ohirio'r broses lle mae disgyblion presennol blwyddyn 9 yn gallu dewis eu hopsiynau.

**168. Rydym yn nodi bod y Gweinidog erbyn hyn wedi sefydlu grŵp gweithredu ac mae'n glir na all y cynigion yn y Mesur arfaethedig lwyddo heb ewyllys y rhai sy'n ymwneud â'i gyflwyno. Er hynny, ar sail y dystiolaeth sydd ger ein bron ar hyn o bryd, rydym yn credu bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu yn afresymol. Gan hynny, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ailystyried yr amserlen ar gyfer cychwyn a hynny cyn i'r Mesur arfaethedig fynd yn ei flaen.**

**169. Gan y bydd y Pwyllgor hwn yn gorffen ei waith ar y Mesur arfaethedig yn gynnar y flwyddyn nesaf, mae'n ymddangos ei bod yn briodol i'r Pwyllgor Menter a Dysgu fonitro'r cynnydd ar y gweithredu os gall y Pwyllgor ymdopi â hynny yn ei raglen waith.**

## Y Goblygiadau Ariannol

170. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag e gan gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar 25 Tachwedd 2008.[95] Yn ychwanegol at yr wybodaeth ariannol a geir yn y Memorandwm Esboniadol, rhoddodd y Gweinidog wybodaeth ychwanegol er mwyn egluro rhywfaint o'r wybodaeth ariannol.

171. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog ddwywaith ac yng ngoleuni'r trafodaethau hynny gofynnodd am ragor o wybodaeth ariannol. Mae manylion llawn y cyfarfodydd a'r papurau a ddarparodd y Gweinidog ar gael yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid.

172. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion ynglŷn ag asesu costau. Cyfeiriwyd yn benodol at gostau teithio, dyrannu arian i'r rhwydweithiau lleol, anghenion ardaloedd gwledig, ailhyfforddi staff, a datblygu darariaeth newydd ac estynedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

173. Nododd y Pwyllgor nad oedd y Memorandwm Esboniadol yn rhoi digon o wybodaeth am gostau gweithredu'r Mesur arfaethedig. Yn ychwanegol:

> "Mae nifer o elfennau yn y cyfrifiadau a wnaed o gostau'r Mesur sy'n seiliedig ar amcangyfrifon a rhagdybiaethau. Er gwaethaf dau bapur pellach, nid yw'r Llywodraeth wedi esbonio beth yw'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau hyn."[96]

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd ganddyn nhw fawr o ddewis "ond argymell nad yw dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur yn cael ei chynnal nes y bydd y wybodaeth hon ar gael".[97]

**174. Rydym yn nodi'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cylliad ac yn cydnabod bod nifer o'r materion y maen nhw'n eu codi wedi cael eu codi hefyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn. Gan hynny, rydym yn argymell y dylid rhoi sylw i'r pryderon hyn cyn i'r Mesur arfaethedig gychwyn.**

---

[95] Atodiad F – Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
[96] Ibid paragraff 22.
[97] Ibid paragraff 23

**Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth**

175. Ystyriodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig am y tro cyntaf ar 8 Ebrill 2008 yn ystod ymarfer ymgynghori'r Llywodraeth ar Fesur arfaethedig drafft. Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur arfaethedig eto ar 29 Medi gan adrodd nad oedd ganddyn nhw bryderon ynghylch y darpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig. Mae adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ynghlwm, yn Atodiad G.

**Atodiad A**

## Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

### Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd

| Cyfeirnod | Enw/sefydliad |
|---|---|
| LS1 | Rhwydwaith 14-19 Ceredigion |
| LS2 | Addysg Uwch Cymru |
| LS3 | Sgiliau Adeiladu Cymru |
| LS4 | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru |
| LS5 | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| LS6 | Rathbone Cymru |
| LS7 | Gwasanaeth Addysg Catholig Cymru a Lloegr |
| LS8 | Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru |
| LS9 | Arholiadau Rhydychen, Caergrawnt a'r RSA (OCR Cymru) |
| LS10 | Estyn |
| LS11 | Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector |
| LS12 | Fforwm |
| LS13 | Llywodraethwyr Cymru |
| LS14 | Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| LS15 | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| LS16 | Coleg Gwent |
| LS17 | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru |
| LS18 | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| LS19 | Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG) |
| LS20 | NAHT Cymru |
| LS21 | Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro |
| LS22 | Cymdeithas yr Iaith |
| LS23 | GoSkills – y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Cludo Teithwyr |

## Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

### Rhestr o dystiolaeth lafar

| Dyddiad | Tystion |
|---|---|
| 25 Medi 2008 | **Llywodraethwyr Cymru**<br>• Alun Tait, Trysorydd<br>• Ray Wells, Swyddog Datblygu (Gogledd)<br><br>**Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru**<br>• Yr Arglwydd Rowlands CBE, Llywydd<br>• Arwyn Watkins, Cadeirydd<br><br>**Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)**<br>• Gareth Pierce, Prif Weithredwr<br>• John Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Datblygu)<br><br>**Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru**<br>• Ben Gray, Llywydd<br>• Carl Harris, Dirprwy Lywydd |
| 30 Medi 2008 | **Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru**<br>• David Evans, Ysgrifennydd Cymru<br><br>**Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau**<br>• Rex Phillips, Trefnydd Cymru<br><br>**Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)**<br>• Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol<br>• Rebecca Williams, Swyddog Polisi<br><br>**Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr**<br>• Dr Philip Dixon, Cyfarwyddwr<br><br>**Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Cymru**<br>• Iwan Guy, Cyfarwyddwr Dros Dro<br>• Gareth Matthewson, Aelod o Bwyllgor Cymru<br><br>**Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru**<br>• Gareth Jones, Ysgrifennydd<br>• Phil Whitcombe, Llywydd |
| | |

| Dyddiad | Tystion |
|---|---|
| 02 Hydref 2008 | **Estyn**<br>• Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru<br>• Nigel Vaughan, Arolygydd Ei Mawrhydi<br>• Meilyr Rowlands, Arolygydd Ei Mawrhydi<br><br>**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**<br>• Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth<br>• Daisy Seabourne, Swyddog Polisi<br>• David Eynon, Cydgysylltydd Llwybrau 14 – 19, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br><br>**Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector**<br>• Elaine Moore, Rheolwr Cymru<br>• Kathryn Hopkins-Morgan, Summitskills<br>• Bill Peaper, Semta<br><br>**Gyrfa Cymru**<br>• Mark Freeman, Prif Weithredwr<br>• Alan Boxford, Aelod o'r Bwrdd<br><br>**Fforwm**<br>• Dr John Graystone, Prif Weithredwr<br>• Brian Robinson, Cadeirydd<br>• Berni Tyler, Pennaeth Ansawdd a Safonau |
| 09 Hydref 2008 | **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**<br>• Alun Charles, Swyddog Datblygu, Uned y Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion<br>• Jeni Smallwood, Swyddog Datblygu, Uned Pobl Ifanc a Sgiliau<br><br>**Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cymru**<br>• David Rosser, Cyfarwyddwr |
| 13 Hydref 2008 | **Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Cymru**<br>• Dr Chris Howard, Is-lywydd Cenedlaethol<br><br>**Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru**<br>• Gareth Jones, Ysgrifennydd<br>• Phil Whitcombe, Llywydd |

| Dyddiad | Tystion |
|---|---|
| 14 Hydref 2008 | **Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau**<br>• John Griffiths AC<br>• Grace Martins, yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>• Mark Leighfield, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| 04 Tachwedd 2008 | • Syr Adrian Webb |
| 13 Tachwedd 2008 | **Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau**<br>• John Griffiths AC<br>• Grace Martins, yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>• Mark Leighfield, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**Atodiad B**

**Llythyr gan Gadeirydd y pwyllgor at y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, dyddiedig 6 Hydref 2008 (Saesneg yn unig)**

Dear John

**Proposed Learning and Skills (Wales) Measure 2008**

As you are aware the Committee has taken a substantial amount of evidence on the proposed Measure and still has a number of evidence sessions planned. However, during the last few meetings witnesses have referred to the proposed phased roll-out. They seem to have information relating to bands for roll-out and have referred to a proposal to only include qualifications that are at least level 2 in the roll-out. The implication is that level 1 qualifications are perceived as having no value in this regard. As you know many learners need to obtain level 1 qualifications as progression to level 2. But not to allow such level 1 qualifications to “score” could act as a disincentive to learners.

Many witnesses have expressed concerns about the timing of the roll-out and the Committee is working on the basis of the information contained in the *Skills that Work for Wales Action Plan* July 2008 in which you say that implementation of the Measure will commence for Year 10 pupils from September 2009 with full roll-out within four years. If you are able to provide more detailed information on your plans for roll-out it will help the Committee’s work greatly. We are keen that we are considering the general principles of the proposed Measure with all of the facts before us. This will also make for a more effective meeting with you when you come to Committee on 14 October.

I would be grateful therefore if you could let us have additional information relating to your proposals for the phased roll-out as well as information on the qualification levels.

Ideally we would have this information a week before the meeting with you on 14 October, but given the tight turnaround I would be grateful for the information by Thursday 9 October to enable Members sufficient time to consider it.

Yours sincerely



**Jeff Cuthbert AM**
**Chair**

**Atodiad C**

**Ymateb gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, dyddiedig 9 Hydref 2008**

**John Griffiths AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau**
**Deputy Minister for Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref yourref
Ein cyf/Our ref ourref

Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau
(Cymru)
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Hydref 2008

Annwyl Jeff,

**Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Hydref. Yn eich llythyr, roeddech yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y dull i'w ddefnyddio er mwyn mynd ati i roi Llwybrau Dysgu 14-19 ar waith.

Rwy'n amgáu papur yr hoffwn ei gyflwyno i Bwyllgor Cam 1 y Mesur fel eu bod yn gallu ystyried ei gynnwys cyn imi gyfarfod â hwy ar 14 Hydref. Mae'r papur yn esbonio sut yr eir ati i roi'r Mesur ar waith fesul cam o fis Medi 2009 ymlaen.

Rwy'n gobeithio y bydd cynnwys y llythyr hwn yn mynd rywfaint o'r ffordd i geisio egluro'r mater i Aelodau'r Pwyllgor, ond wrth gwrs, rwy'n hapus iawn i ateb unrhyw gwestiynau ychwanegol sydd ganddynt ar y mater hwn neu ar unrhyw agwedd arall ar y Mesur Arfaethedig pan fyddaf yn cyflwyno fy nhystiolaeth iddynt ar 14 Hydref.

J Griffiths

AMG: Papur ynghylch rhoi Llwybrau Dysgu 14-19 ar waith

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
correspondence.john.griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Papur Pwyllgor: Mesur Arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008**

## 1 Rhagarweiniad

1.1 Cyflwynir y papur hwn er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor wrth iddo ystyried Mesur arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru).

1.2 Yn unol â'r cais a gafwyd, mae'r papur yn mynd ati i ystyried nifer o faterion allweddol sy'n gysylltiedig â'r amserlen ar gyfer rhoi'r Mesur ar waith ac i egluro sut y penderfynwyd ar yr amserlen arfaethedig hon.

## 2 Y Cefndir

2.1 Mae'r broses o ddatblygu'r polisi ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 wedi bod yn mynd rhagddi er 2002, ac ymgynghorwyd ag ystod eang o randdeiliaid wrth fynd ati i lunio'r polisi hwnnw. Cafodd y Canllawiau ar Lwybrau Dysgu[98] eu hanfon at randdeiliaid am y tro cyntaf yn 2003. Yn ei hanfod, yr hyn y mae'r polisi'n anelu at ei wneud yw datblygu cyfuniad o ddewisiadau ehangach o ran cwricwlwm ac o ran cymorth o ansawdd uchel i ddysgwyr er mwyn cynorthwyo pobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'n gwneud hyn drwy geisio adeiladu ar arferion da sy'n bodoli eisoes a thrwy annog darparwyr dysgu i gydweithredu ac i gydweithio. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, gwariwyd £73.5 miliwn er mwyn hwyluso'r broses hon o weddnewid y ddarpariaeth. Bwriedir i'r Mesur arfaethedig Dysgu a Sgiliau ategu'r polisi hwn.

2.2 Aed ati i roi'r polisi ar waith drwy gyfrwng y Rhwydweithiau Dysgu 14-19. Mae 22 o Rwydweithiau sy'n seiliedig ar ffiniau ardaloedd yr awdurdodau lleol. Mae'r Rhwydweithiau 14-19 hyn yn bartneriaethau strategol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sector priodol. Maent yn pennu blaenoriaethau strategol ar gyfer ardal dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r Rhwydweithiau 14-19 yn helpu i sicrhau y darperir yr ystod o raglenni a chymorth y mae ei hangen er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael manteisio ar holl elfennau Llwybrau Dysgu. Mae'r Rhwydwaith ar gyfer pob ardal yn paratoi Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol ac mae'r cynllun hwn yn dal i fod yn bwysig o safbwynt gwella deilliannau dysgu drwy sicrhau dewis ehangach o ran cwricwlwm ynghyd â chymorth o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr.

## 3 Mesur Arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008

3.1 Mae Mesur arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn elfen ddeddfwriaethol bwysig o'r strategaeth sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn

[98] Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

gweddnewid y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ledled Cymru.

3.2 Mae'r Mesur arfaethedig yn ategu polisi arloesol "Llwybrau Dysgu14-19" ac mae'n gwbl hanfodol er mwyn gweithredu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*[99], sy'n sefydlu agenda unigryw ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

3.3 Mae'r Mesur arfaethedig

- yn creu'r hawl i ddysgwyr 14-19 oed yng Nghymru ddewis dilyn cwrs astudio sy'n rhan o gwricwlwm lleol ar gyfer ardal; ac mae'n

- ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol a Chyrff Llywodraethu Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach ystyried cydweithredu er mwyn ceisio sicrhau bod cynifer o gyrsiau astudio ag y bo modd ar gael mewn cwricwla lleol.

  Bydd ystod eang o ddewisiadau mewn cwricwlwm lleol ar gyfer ardal. Am y tro cyntaf, bydd hawl gan bobl ifanc ledled Cymru i fynd ati i astudio gan ddewis o blith isafswm o gyrsiau a fydd yn cynnwys llwybrau academaidd a galwedigaethol. Wrth wneud dewisiadau o'r fath, bydd angen cyngor, arweiniad a chymorth ar ddysgwyr er mwyn iddynt fedru bod yn ffyddiog eu bod wedi dewis yn briodol.

3.4 Fel rheol, byddai cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cynnwys:
- cyrsiau a gynigir i ddysgwyr, sydd ar gael yn yr ysgolion lle maent yn ddisgyblion cofrestredig
- cyrsiau a gynigir i ddysgwyr drwy bartneriaeth / cydweithredu â darparwyr eraill megis ysgolion, Colegau Addysg Bellach a Darparwyr Hyfforddiant Preifat ac sydd ar gael yn y lleoliad arweiniol neu mewn amgylchedd dysgu arall.

3.5 Nodir dau brif faen prawf mewn perthynas â gofynion y Cwricwlwm Lleol:

- Cael isafswm sgôr o fewn y Cwricwlwm Lleol (Fe'i pennir er mwyn sicrhau Cwricwlwm Lleol o faint digonol)
- Isafswm o ddewisiadau o ran cyrsiau lefel 2 ar gyfer dysgwyr (Fe'i pennir er mwyn ehangu'r arferion presennol, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth alwedigaethol ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4). Mae cyrsiau lefel 1 yn cael eu cynnwys yn y sgôr y mae angen ei chael.

[99] Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth a Chynllun Gweithredu, Gorffennaf 2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru

3.6 Mae cymwysterau TGAU yn cwmpasu lefel 1 a lefel 2, ond mae cymwysterau galwedigaethol yn tueddu i ymdrin â lefel 1 a lefel 2 ar wahân. O'r herwydd, mae angen datblygu dull o ymdrin â chymwysterau galwedigaethol sy'n sicrhau:

-y cydnabyddir gwerth a pherthnasedd rhaglenni lefel 1 i rai pobl ifanc. O'r herwydd, mae cyrsiau galwedigaethol lefel 1 yn cael eu cynnwys yn y sgôr bwyntiau alwedigaethol;

-bod rhaglenni galwedigaethol yn cael eu hystyried yn ddewis sydd 'o werth cyfartal' a'u bod, felly, ar gael ar y lefel gyfwerth uchaf y gellir ei chyrraedd drwy TGAU (h.y. graddau A-C) ac nad dim ond ar lefel 1 (sy'n gyfwerth â graddau TGAU D-G) y mae rhaglenni o'r fath ar gael;

-bod gan bobl ifanc ar gyrsiau galwedigaethol hawl i fanteisio ar ddarpariaeth lefel 2 os yw hynny'n bosibl ac os ydynt yn gallu dangos bod y lefel honno'n briodol ar eu cyfer.

Mewn gair, os oes gan bobl ifanc y gallu i astudio cyrsiau galwedigaethol ar lefel 2, rydym am iddynt gael y cyfle i wneud hynny. Nid dim ond dewisiadau lefel 1 y dylid eu cynnig iddynt.

3.7 Hyd yma, wrth ddatblygu darpariaeth alwedigaethol ar gyfer dysgwyr cyn 16, tueddwyd i ganolbwyntio ar lefel 1. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch gwerth cyfartal a pharch cydradd, ac mae angen mynd i'r afael â'r cwestiynau hynny.

3.8 Ers i'r rhaglen gael ei chyflwyno, un o'r dyheadau ym mholisi Llwybrau Dysgu 14-19 yw "cynyddu'r gyfran o rai 16 oed sydd â chymwysterau lefel 2 a'r gyfran o rai 19 oed sydd â chymwysterau lefel 3"[100] Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector yn cynghori y dylai dysgwyr cyn 16 astudio rhaglenni galwedigaethol lefel 2 os ydynt ar gael, a hynny er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr.

3.9 Fel y nodwyd eisoes, mae cyrsiau galwedigaethol lefel 1 yn cael eu cynnwys yn y sgôr bwyntiau alwedigaethol. Mae hyn yn fodd i gydnabod darpariaeth alwedigaethol lefel 1 a rhoi gwerth arni. Os yw cwrs yn cael ei gynnig ar lefel 1 o fewn cwricwlwm lleol ond bod darpariaeth yn cael ei gwneud i ddysgwyr sy'n bodloni cymwyseddau lefel 1 fedru symud ymlaen i astudio ar gyfer dyfarniad uwch yn ystod y cyfnod allweddol hwnnw, ceir cynnwys hynny fel dewis. Mae hyn yn golygu bod darpariaeth alwedigaethol o'r un gwerth â darpariaeth TGAU. Nodir nad yw nifer o gyrsiau

[100] Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

galwedigaethol ar gael i ddysgwyr cyn 16 ar lefel 2. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cyrsiau adeiladu, trin gwallt ac astudiaethau cerbydau modur. Mewn achosion o'r fath, bydd rhaglenni lefel 1 yn cyfrif fel dewis ynddynt eu hunain.

3.10 Mae'r dull sgorio yn ystyried y gwahaniaeth ym maint cyrsiau; bwriedir mabwysiadu'r system cyfwerthedd ar sail trothwy (sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â datganiadau RE2[101] ar gyfer ysgolion). Yr hyn a olygir wrth drothwyon yw maint y cymwysterau ar lefel benodol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (yr NQF). Er enghraifft, mae TGAU llawn yn cael sgôr o 20 (20% o drothwy lefel 2); mae Diploma Cyntaf BTEC yn cael sgôr o 80 (80% o drothwy lefel 2). Ar gyfer darpariaeth alwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'n rhaid cael isafswm sgôr bwyntiau o 200 ynghyd ag o leiaf 5 dewis ar lefel 2. Felly, caiff unrhyw gwrs lefel 1 gyfrannu at y sgôr cyn belled ag y cynigir y dewisiadau ar lefel 2.

3.11 Mae Cyfraniad y Lefelau o fewn yr NQF yn gweithredu ar y sail bod cyfraniad trothwy wedi'i briodoli i bob cymhwyster cymeradwy. Fe'i mynegir fel canran o gyfanswm maint y dysgu y mae ei angen er mwyn cyrraedd y trothwy ar gyfer y lefel. Felly, bydd sgôr trothwy yn cael ei rhoi i unrhyw gymhwyster

## 4 Y camau y bwriedir eu cymryd

### *Cyflwyno Fesul Cam yn ôl Grwpiau Blwyddyn*

4.1 Mae partneriaid yn y Rhwydweithiau Dysgu 14-19 wedi cael gwybod mai'r bwriad fyddai gweithredu'r Mesur arfaethedig o fis Medi 2009 ymlaen ar yr amod y caiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

4.2 Bwriedir gweithredu'r polisi fesul cam. Ymddengys y byddai'n rhesymegol dechrau gyda Blwyddyn 10 ac yna cyflwyno'r polisi ar gyfer grwpiau blwyddyn dilynol. Byddai hyn yn gyson â'r adborth a'r argymhellion a gafwyd oddi wrth randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori.

4.3 Dyma'r amserlen ar gyfer mynd ati i weithredu'r polisi fesul cam yn ôl grwpiau blwyddyn:

| | |
|---|---|
| - Medi 2009 | Blwyddyn 10 |
| - Medi 2010 | Blynyddoedd 10,11 |
| - Medi 2011 | Blynyddoedd 10,11,12 |

[101] Mae ffurflen RE2 yn rhoi crynodeb o wybodaeth am arholiadau, sy'n benodol i bob ysgol, ac a gesglir gan CBAC ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Medi 2012 Blynyddoedd 10,11,12,13

Byddai modd mynd ati'n gynt i roi'r polisi ar waith drwy ei gyflwyno ar gyfer Blynyddoedd 10 a 12 yn 2009. Er hynny, argymhellir y dylid gweithredu fesul cam, a hynny am amryfal resymau, gan gynnwys yr awydd i sicrhau bod y system addysg yn cael amser i addasu er mwyn ymdopi â gofynion y Mesur arfaethedig ac nad oes pwysau afresymol yn cael ei rhoi arni.

***Cyflwyno Fesul Cam - Bandio yn ôl Ardaloedd Awdurdodau Lleol***

4.4 Cydnabyddir bod gwahaniaethau rhwng gwahanol ardaloedd o Gymru o safbwynt pa mor barod ydynt i weithredu'r gofynion yn y Mesur arfaethedig o ran cwricwla lleol. O dan y Mesur arfaethedig, caiff y gofynion hyn eu pennu drwy gyfrwng rheoliadau.

4.5 Er mwyn cydnabod y ffaith y bydd gwahanol ardaloedd yn cychwyn o fannau gwahanol, bwriedir cyflwyno trefniadau bandio er mwyn gweithredu'r gofynion yng Nghyfnod Allweddol 4. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad oes gormod o bwysau yn cael ei roi ar randdeiliaid, ond gan ddangos ar yr un pryd bod ymrwymiad clir i sicrhau isafswm o ran yr hyn y mae gan ddysgwyr yr hawl iddo. Mae'r trefniadau bandio i'w gweld yn Nhabl 1, a hynny yn ôl nifer y dewisiadau. Mae ardal awdurdod lleol yn cael ei rhoi mewn un o 3 band; ym mhob band, bydd gofyn symud ymlaen yn raddol er mwyn cyrraedd yr isafswm llawn y bydd gan ddysgwyr yr hawl iddo, a hynny erbyn dyddiad a bennir. Erbyn 2012, bydd pob band wedi cyrraedd yr isafswm llawn y mae gan ddysgwyr yr hawl iddo.

4.6 Tabl 1: Cyfnod Allweddol 4 – Nifer y Cyrsiau a Bandiau'r Awdurdodau Lleol

| Blwyddyn | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|
| Band A | 28 | 30 | 30 | 30 |
| Band B | 26 | 28 | 30 | 30 |
| Band C | 24 | 26 | 28 | 30 |

4.7 Yn ystod y 6 mis diwethaf, mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal cyfarfodydd gyda phob un o'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol er mwyn trafod ym mha fand i roi pob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol. Barnwyd ei bod yn briodol trafod ar lefel yr awdurdodau lleol gan mai cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fydd llunio'r cwricwla lleol yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae pob un o'r 22 o ardaloedd awdurdodau lleol wedi cytuno'n amodol ar y band y byddant yn cael eu rhoi ynddi. Roedd y cyfarfodydd hyn

yn gyfle hefyd i ymgynghori am y polisi a fydd yn sail i unrhyw reoliadau sy’n ymdrin â chwricwla lleol o dan Fesur arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru).

**Atodiad D**

**Llythyr gan Gadeirydd y pwyllgor at Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn, dyddiedig 15 Hydref 2008 (Saesneg yn unig)**

Dear Dr Maxwell

**Proposed Learning and Skills (Wales) Measure 2008**

I am writing regarding your written evidence in response to the Committee's consultation on this proposed Measure and the oral evidence you gave to the Committee during the meeting on 2 October.

Since you came to Committee, the Deputy Minister for Skills has supplied the Committee with additional information on the proposed phased implementation of the proposed Measure from September 2009 and I have enclosed a copy of his paper for information. Following the publication of this additional information, I would be grateful if Estyn could comment further on the implementation proposals. I would welcome your comments by 30 October to enable them to be considered by the Committee when the Report is being prepared.

Yours sincerely



**Jeff Cuthbert AM**
**Chair**

**Atodiad E**

**Ymateb gan Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn, dyddiedig 30 Hydref 2008 (Saesneg yn unig)**

Dear Mr Cuthbert,

Thank you for your letter of the 15 October 2008 in which you asked for my views on the phased implementation of the propose Measure from September 2009. I have now considered the additional submission from DCELLS that you sent me with your letter and I can confirm that the phased process set out in that submission does address my concerns satisfactorily. You will recall that in my oral evidence to the Committee I said that I recognised the urgency in moving ahead with this agenda and that would not want the process of implementation to be held back any longer than was necessary. However, I also said that full implementation in September 2009 was not achievable and that a phased introduction over three or four years was reasonable, possibly starting with the areas that are most ready to move on this agenda.

The additional information shows the proposed staged introduction by year group and the phased introduction by bands in different local authorities. The proposals mean that no local authority is required to implement the full minimum entitlement in 2009 and all will have reached the full minimum entitlement by 2012. I think that these proposals are sensible and appropriate. I am pleased to see that the assignment of local authorities to bands has been based on discussion with them and that each of the local authorities have agreed a provisional banding position.

Since my oral evidence to the Committee, I have received further information about some of the detail of the proposed entitlement at key stage 4 that will be set out in the regulations that will underpin the Measure. I am aware that there has been some debate about the fact that this will specify a number of courses at only level 2. In my view, the entitlement as set out in this way is appropriate. I understand why the entitlement has specified level 2 courses as these are the often the weakest areas in networks' provision. We have consistently said this in our reports on 14-19 provision. The entitlement does not prevent the provision of courses at entry level or level 1. The spirit of Learning Pathways 14-19 and the Measure is to expand choice and there is still the need for courses at entry level and level 1. The entitlement is minimum and networks can and should offer entry level and level 1 courses in order to meet learners' needs.

I hope that provides you with a clear statement of my views. Please get in touch with me if you or your Committee require further comments.

Yours sincerely



Dr Bill Maxwell, Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales

**Atodiad F**

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008**

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

### Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

### Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn datgan:

> *Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*
>
> *(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

### Y Mesur Arfaethedig:

2. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) i'r Cynulliad ar 7 Gorffennaf 2008. Byddai'r Mesur arfaethedig yn deddfu ym maes addysg disgyblion rhwng 14 a 19 oed sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

3. Byddai'r Mesur yn ceisio sicrhau bod gan bob dysgwr ifanc yr hawl i gael fframwaith i lwybr dysgu sy'n eu galluogi i gael profiadau dysgu cytbwys ac addas, a hwnnw'n darparu yn y ffordd orau ar gyfer eu hanghenion unigol.

4. Yn benodol, byddai'r Mesur yn gwneud y canlynol:

- Gosod dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i ffurfio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr 14-16 oed, ac ar Weinidogion Cymru ar gyfer dysgwyr 16-19 oed sy'n cynnwys ystod o opsiynau i'w dewis ar draws y meysydd dysgu penodol;
- Galluogi Gweinidogion Cymru i bennu isafswm nifer y cyrsiau astudio y gellir eu cynnwys o fewn cwricwlwm lleol, i bennu'r maes dysgu penodol y mae cwrs astudio yn perthyn iddo ac i bennu isafswm nifer y cyrsiau astudio galwedigaethol i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol;
- Rhoi'r hawl i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir i ddewis dilyn cyrsiau astudio o gwricwlwm ardal leol. Bydd hefyd yn caniatáu gwneud rheoliadau i bennu uchafswm nifer y cyrsiau astudio y mae gan ddisgybl yr hawl i ddewis eu dilyn;

- Nodi ar ba sail y gall pennaeth/penadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs mae wedi'i ddewis a chaniatáu gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r penderfyniadau hyn;
- Gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir a chyrff llywodraethu a phenaduriaid y sector addysg bellach i gynorthwyo Awdurdod Addysg Lleol i gynllunio cwricwla ardal leol, gan roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd a chan gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan Weinidogion Cymru;
- Sicrhau cynnwys y lefel uchaf posib o gyrsiau astudio o fewn cwricwla lleol trwy gydweithrediad rhwng cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach, ac Awdurdodau Addysg Lleol er mwyn darparu amrywiaeth eang o opsiynau astudio;
- Galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau mewn perthynas â chydweithio a chydweithredu;
- Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r meysydd dysgu;
- Galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â cheisiadau a phenderfyniadau wrth bennu lleoliad dysgu arweiniol disgybl.

**Tystiolaeth**

5. Rhoddodd y Pwyllgor Cyllid ystyriaeth i'r Mesur Arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i bapur FIN(3) 12-08 (p4) ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) – sef gwybodaeth ariannol ddarparwyd gan swyddogion yn ddiweddarach er mwyn rhoi eglurhad pellach.

6. Yn ei gyfarfod ar 2 Hydref, clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan John Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, Lynne M Hamilton, Cyfarwyddwr y Grŵp Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau yn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a Mark Leighfield, Pennaeth Llwybrau Dysgu 14-19 yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

7. Yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd, clywodd y Pwyllgor Cyllid ragor o dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, Elizabeth Williams, Pennaeth y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc a Mark Leighfield, Pennaeth Llwybrau Dysgu 14-19.

8. Darparodd y Gweinidog nodyn pellach ar 13 Tachwedd 2008, yn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan y pwyllgor.

**Lefel y cyllid**

9. Amcan y Mesur yw adeiladu ar bolisi 'Llwybrau Dysgu 14-19' Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r polisi hwnnw'n ymrwymo i sicrhau bod 95% o bobl ifanc, erbyn eu bod yn 25 oed, yn barod i gael addysg uwch neu i gael eu cyflogi mewn swydd sy'n gofyn am sgiliau da. Y nod yw cyflawni hyn erbyn 2015. Bwriedir i'r cyllid ar gyfer rhoi'r Mesur ar waith ddod o'r £32.5m sydd eisoes ar gael er mwyn darparu rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19.

10. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 2 Hydref, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog [Cofnod y Trafodion 2/10/2008, paragraff 87] y byddai angen i'r cyllid hwn barhau er mwyn cyflwyno'r Mesur ac na fyddai angen unrhyw gyllid ychwanegol [paragraff 89, Cofnod y Trafodion 2/10]. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd: 'As the majority of funding to local authorities is unhypothecated the potential expenditure by local authorities on the 14-15 age cohort in secondary schools can only be broadly estimated.' [FIN(3) 12-08 (p4), paragraff 2.3]. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu y gallai amcangyfrif mor fras o'r lefelau gwario presennol effeithio ar gadernid unrhyw gyfrifiadau diweddarach o'r gost.**

11. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor Cyllid y byddai'r cydweithio a'r cydweithredu sy'n sail i'r Mesur yn sicrhau bod defnydd gwell yn cael ei wneud o'r cyllid presennol ar gyfer llwybrau dysgu 14-19. Disgwylir gwneud arbedion drwy beidio â dyblygu gwaith a thrwy arbedion maint a ddaw o ddarparu cyrsiau ar y cyd. Roedd disgwyl gwneud rhagor o arbedion hefyd o ganlyniad i'r lleihad yn nifer y boblogaeth sydd rhwng 14 ac 19 oed, er y byddai'r cynnydd y gobeithir ei weld yn nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn lleihau maint yr arbedion hyn, a hynny i raddau helaeth.

12. Byddai'r cynnydd yn narpariaeth cyrsiau galwedigaethol hefyd yn lleihau'r arbedion, gan fod y cyrsiau hynny'n costio mwy i'w darparu nac astudiaethau yn yr ystafell ddosbarth.

13. **Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi bod y gwariant presennol a'r arbedion disgwyliedig wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio amcangyfrifon a rhagdybiaethau. I raddau helaeth, nid yw'r Llywodraeth wedi gallu dilysu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth wneud y rhagdybiaethau hyn. Os caiff y Mesur ei basio, mae'r pwyllgor felly yn argymell bod y Dirprwy Weinidog yn adolygu'r broses o roi'r Mesur ar waith yn ofalus, a hynny er mwyn sicrhau nad oes bwlch yn ymddangos mewn cyllid o ganlyniad i arbedion llai na'r disgwyl a'r ffaith bod mwy o bobl ifanc na'r disgwyl yn cymryd rhan yn y cynllun.**

**Rhoi'r Mesur arfaethedig ar waith**

14. Disgwylir cyflwyno'r Mesur yn raddol a hynny drwy drefniadau bandio a thrwy symud o gam i gam. Mae awdurdodau lleol wedi penderfynu ar y band sy'n disgrifio'u cynnydd hwy orau a gallant ddewis symud o'u band presennol wrth i amser fynd yn ei flaen [Cofnod y Trafodion 7/11/08 14.40-14.45pm]. Fodd bynnag, mae angen i bob awdurdod lleol ddarparu 30 o gyrsiau erbyn 2012, ac mae'r targed yn cynyddu'n raddol drwy godi lleiafswm nifer y cyrsiau fesul dau bob blwyddyn tan 2012.

15. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi pryderon Estyn bod 2009 fel y flwyddyn gychwyn yn afrealistig ac ystyried y trefniadau sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi dysgwyr i ddewis eu cyrsiau. Cafodd y pwyllgor sicrhad gan y Dirprwy Weinidog bod y trefniadau sydd bellach yn bodoli ar gyfer bandio a symud o gam i gam wedi lleihau'r pryderon hynny [Cofnod y Trafodion 7/11/08 14.40 – 14.45].

**16. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn fodlon y bydd y broses raddol o roi'r Mesur ar waith yn cael ei hadolygu'n ofalus gan y Dirprwy Weinidog wrth ailedrych ar yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau a wnaed wrth gyfrifo goblygiadau ariannol y Mesur.**

**Costau teithio**

17. Mae'r Dirprwy Weinidog yn cydnabod y bydd rhagor o gostau teithio yn sgil y Mesur hwn, ac mae wedi amcangyfrif goblygiadau ariannol darparu trafnidiaeth i ddysgwyr.

**18. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pwysleisio drachefn ei bod yn hanfodol asesu goblygiadau ariannol unrhyw ddeddfwriaeth yn drylwyr, a hynny o'r cychwyn cyntaf. Mae'r pwyllgor yn awyddus i gael sicrhad bod yr amcangyfrifon o'r costau teithio yn gadarn.**

**Methodolegau ar gyfer ariannu cydweithio**

19. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r Mesur yn annog cydweithio a chydweithredu [Cofnod y Trafodion 2/10/08, paragraff 108] gan y byddai'n rhaid i sefydliadau ddod ynghyd i ddarparu'r nifer angenrheidiol o gyrsiau. Nid yw'r costau cydweithio hyn wedi'u cynnwys ym Memorandwm Esboniadol y Mesur, ond mae'r Dirprwy Weinidog yn cydnabod bod goblygiadau o ran y gost, ac mae wedi neilltuo £75,000 ar gyfer pob rhwydwaith er mwyn ariannu'r gwaith hwn.

**20. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu na fydd neilltuo swm penodol ar gyfer pob rhwydwaith yn ddigon mewn awdurdodau lleol mwy eu maint gan fod rhywfaint o'r costau'n amrywio. Ac ystyried pwysigrwydd cydweithio a chydweithredu er mwyn i'r Mesur fod yn llwyddiant, mae'n hanfodol bod y cyllid sydd ar gael i rwydweithiau lleol yn ddigon er mwyn gweinyddu'r broses yn effeithiol.**

**21. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn credu ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r rhwydweithiau lleol yn cyfathrebu'n effeithiol drwy gydol y broses o roi'r Mesur ar waith ac wedi hynny. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud bod yr Adran dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol. Byddai'r Pwyllgor Cyllid yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal perthynas weithio dda yn y dyfodol.**

**Casgliad**

22. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn siomedig bod y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys cyn lleied o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Mesur ar waith. Mae'r pwyllgor yn derbyn bod y Llywodraeth yn awyddus i roi'r Mesur ar waith drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd wedi cael eu darparu ganddi eisoes, ac mae'r pwyllgor yn fodlon bod y dull hwnnw yn un cwbl resymol i'w ddilyn. Serch hynny, mae angen i'r Llywodraeth ddangos bod hyn yn realistig ac y bydd modd ei gyflawni. Mae nifer o elfennau yn y cyfrifiadau a wnaed o gostau'r Mesur sy'n

seiliedig ar amcangyfrifon a rhagdybiaethau. Er gwaethaf dau bapur pellach, nid yw'r Llywodraeth wedi esbonio beth yw'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau hyn.

23. Nid yw'r pwyllgor felly wedi gallu edrych ar y cyfrifiadau hyn ac mae'n rhaid iddo ddod i'r casgliad nad yw'n bosibl gwneud asesiad dibynadwy o effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). **Mae'r pwyllgor o'r farn nad oes ganddo ddewis arall ond argymell nad yw dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur yn cael ei chynnal nes y bydd y wybodaeth hon ar gael. Dim ond wedyn y gall y pwyllgor, ac Aelodau'r Cynulliad yn eu tro, asesu effaith ariannol y Mesur.** Gan ystyried y sefyllfa anodd y mae'r Cynulliad ynddi o ran yr economi a'i chyllideb, byddai bwrw ymlaen heb gael y wybodaeth hon yn ymddangos yn anghyfrifol ac yn anghyson â datganiad y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus mai un o'i flaenoriaethau yw sicrhau bod gwariant yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth ac ein bod yn cael gwerth am y bunt yng Nghymru [Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 9 Hydref, paragraff 18].

24. At hynny, o'r hyn y mae'r pwyllgor wedi'i weld ynghylch y cyfrifiadau a'r rhagdybiaethau, mae'n ymddangos mai prin iawn yw'r gwaith a wnaed i ganfod gwir gostau rhoi menter mor newydd a helaeth ar waith ym maes addysg. Yn benodol, rydym yn pryderu nad yw anghenion ardaloedd gwledig, ailhyfforddi staff a datblygu darpariaeth newydd ac estynedig drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael eu gwerthuso mewn ffordd ddibynadwy. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen rhagor o adnoddau er mwyn darparu hyfforddiant preswyl mewn ardaloedd gwledig.

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

**Atodiad G**

**Llythyr (Saesneg yn unig) ac adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008, dyddiedig 11 Tachwedd 2008**

**Dear Jeff**

**PROPOSED LEARNING AND SKILLS (WALES) MEASURE**

**Evidence to the Subordinate Legislation Committee**

Under SO 15.6 (ii), the remit of the Subordinate Legislation Committee allows it to consider "the appropriateness of provisions in proposed Assembly Measures…that grant powers to make subordinate legislation to the Welsh Ministers…".

The Assembly Government issued a consultation document on 15 January 2008 in relation to its proposed Measure in relation to Learning and Skills. The Committee took evidence from the Deputy Minister (John Griffiths AM) on 8 April 2008.

Following completion of the consultation exercise, the Government introduced its Learning and Skills Measure on 7 July 2008. The Committee received a report from its Legal Advisers which was considered at its meeting on 29 September 2008. The report (and its Annexes) highlighted changes made since the consultation draft previously considered by the Committee. Those changes addressed issues raised at the Committee's meeting with the Minister.

The report considered at its meeting on 29 September is annexed to this letter.

As the Chair of the Subordinate Legislation Committee I would like to inform you that, having scrutinised the subordinate legislation provisions and the rationale behind the choice of procedure applying to these provisions, the Members had no concerns that they wished to draw to the attention of your Committee.

I would also like to bring to your attention the transcript of the meeting with the Deputy Minister which may inform the work of your Committee:
http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-sleg-home/bus-committees-third-sleg-agendas-2/slc20080408qv.pdf?langoption=3&ttl=SLC%283%29-07-08%20%3A%20Transcript%20%28PDF%2C%20143kb%29
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-sleg-home/bus-committees-third-sleg-agendas-2/slc20080408qv.pdf?langoption=3&ttl=SLC%283%29-07-08%20%3A%20Trawsgrifiad%20%28PDF%2C%20143kb%29

**Dr Dai Lloyd AM**
Chair, Subordinate Legislation Committee

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**SLC(3) 20-08 (p7)**

**Dyddiad: 29 Medi 2008**
**Amser: 2.30pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

**Y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd)**

Papur i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â phwerau dirprwyedig – i'w ystyried gan y pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 15.6(ii)

Diben

Yn unol â Rheol Sefydlog 15.6(ii) caiff y pwyllgor ystyried pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu darpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig, Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd) i'w hystyried gan y pwyllgor ac mae'n amlygu'r newidiadau a wnaed i'r Mesur arfaethedig o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Cefndir

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddogfen ymgynghori ar 15 Ionawr 2008 ar ei Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau. Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog (John Griffiths AC) ar 8 Ebrill 2008.

Ar ôl yr ymgynghoriad, cyflwynodd y Llywodraeth ei Mesur Dysgu a Sgiliau ar 7 Gorffennaf 2008. Mae'r newidiadau a wnaed ers y fersiwn a ystyriwyd gan y pwyllgor wedi'u crynhoi gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn Atodiad A[102].

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r Mesur fel a ganlyn –

*"Bydd y Mesur hwn yn creu cyfraith ar gyfer addysg disgyblion ysgol a phobl ifanc mewn addysg neu hyfforddiant 14-19[1] oed yng Nghymru. Mae'n diwygio'r gyfraith ar gyfer dysgwyr yng Nghymru mewn addysg a hyfforddiant 14-19 oed, a osodwyd yn Neddf Addysg 2002 a Deddf Dysgu a Medrau 2000. Mae hefyd yn diwygio Deddf Addysg 1997."*

Cymhwysedd Deddfwriaethol

Mae'r Llywodraeth wedi nodi bod y pŵer i wneud y Mesur hwn wedi'i gynnwys yn adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae cymhwysedd y

[102] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-sleg-home/bus-committees-third-sleg-agendas-2.htm?act=dis&id=106728&ds=4/2008

Cynulliad i ddeddfu ar y mater hwn i'w weld yn Materion 5.4, 5.7 a 5.8 ym maes 5 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

Y materion dan sylw yw –

*"Mater 5.4*

*Darpariaeth ynghylch y cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol.*

*Mater 5.7*
*Darpariaeth ynghylch yr hawl i gael addysg gynradd, uwchradd a phellach ac i gael hyfforddiant.*

*Mater 5.8*
*Darpariaeth ynghylch darparu gwasanaethau y bwriedir iddynt annog pobl, eu galluogi neu eu helpu –*
*(a) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant,*
*(b) i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, neu*
*(c) i gymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymunedau."*

Ymddengys fod y Mater a ganlyn yn berthnasol hefyd -

*"Mater 5.13*
*Darpariaeth ar gyfer sicrhau cydlafurio rhwng y canlynol ac mewn cysylltiad â hynny –*
*(a) cyrff sy'n cynnal sefydliadau sy'n ymwneud â darparu addysg bellach, neu*
*(b) un neu fwy o gyrff o'r fath a phersonau neu gyrff eraill sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant yng Nghymru,*
*gan gynnwys, yn benodol, darpariaeth ar gyfer sefydlu cyrff at ddibenion cyflawni swyddogaethau ar ran un neu fwy o bersonau neu gyrff sy'n barti i drefniadau cydlafurio neu mewn cysylltiad â hynny."*

Pwerau Is-ddeddfwriaeth

Mae Rhan 1 o'r Mesur yn cyflwyno Cwricwlwm Lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 drwy ddiwygio Deddf Addysg 2002 yn unig. Mae Rhan 2 yn ymdrin â Chwricwlwm Lleol i fyfyrwyr 16 i 18 oed drwy ddiwygio Deddf Dysgu a Medrau 2000. Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer Gwasanaethau sy'n ymwneud ag Addysg, Addysgu a Sgiliau, ac mae'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf Addysg 1997. Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau amrywiol. Canlyniad hyn yw bod y rhan fwyaf o'r 47 adran yn gwneud diwygiadau i Ddeddfau Seneddol, a bod y gweithdrefnau is-deddfwriaeth fel arfer yn dilyn gweithdrefnau'r Deddfau hynny.

Mae'r Llywodraeth wedi crynhoi'r argymhellion mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth yn Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol fel a ganlyn–

***"5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth***

*5.1. Mae'r Mesur yn cynnwys pwerau galluogi i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch:*

*•Llunio'r cwricwlwm lleol, er enghraifft, isafswm nifer y cyrsiau i'w cynnig o fewn y cwricwlwm lleol ac isafswm nifer y cyrsiau hynny ddylai fod yn alwedigaethol;*

*• y dewisiadau a wneir o ran cyrsiau cwricwlwm lleol gan gynnwys, er enghraifft, uchafswm nifer y cyrsiau y gall disgybl eu dilyn a'r cyfnod ar gyfer gwneud dewisiadau;*

*• y graddfeydd amser perthnasol ar gyfer penderfyniad pennaeth neu benadur na all disgybl ddilyn cwrs ac yn fwy cyffredinol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau o'r fath;*

*• cymhwyso darpariaethau'r Mesur ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol sydd heb gofrestru fel disgyblion ysgol a gynhelir ond sy'n derbyn addysg o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru;*

*• cymhwyso darpariaethau'r Mesur ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol sydd wedi cofrestru fel disgyblion ysgol arbennig a gynhelir ac i blant dros oed gorfodol sy'n fyfyrwyr mewn sefydliadau sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer pobl gydag anhawster dysgu;*

*• pennu lleoliad dysgu arweiniol disgybl, "yr ysgol neu'r sefydliad perthnasol" a cheisiadau disgyblion a phenderfyniadau penaethiaid neu benaduriaid, gan gynnwys yn arbennig ddarpariaeth mewn perthynas â'r dyddiad a'r amser ar gyfer gwneud cais neu benderfyniad.*

*5.2 Yn ogystal mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru trwy orchymyn i:*

*• ddiwygio'r meysydd dysgu a*

*• diwygio ar ba sail benodol y gall pennaeth neu benadur benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs neu nad oes hawl pellach gan ddisgybl i ddilyn cwrs.*

*5.3 Ym mhob achos a nodir uchod, mae'r rhesymeg dros gymhwyso'r is-ddeddfwriaeth yn dibynnu ar yr angen i osgoi gor-fanylu neu i ganiatáu hyblygrwydd o fewn cyfyngiadau'r egwyddorion a gyflwynwyd o fewn y Mesur ei hun. Gan y bydd y rheoliadau hyn yn cynnwys cryn fanylder, ac yn destun adolygiad cyfnodol a diwygio pe bai angen, ystyrir ei bod yn fwy priodol eu cynnwys o fewn is-ddeddfwriaeth nac o fewn y Mesur.*

*5.4 Mae'r pŵer trwy orchymyn i ddiwygio'r meysydd dysgu a'r sail i atal yr hawl yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad, fel y byddent yn caniatáu diwygiadau i'r Mesur ei hun.*

*5.5 Mae unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir dan ddarpariaethau'r Mesur yn ddarostyngedig i archwiliad gan y Cynulliad Cenedlaethol dan y weithdrefn negyddol. Bydd y gorchmynion hyn ar y cyfan yn dechnegol, yn drefniadol neu byddant yn gosod trefniadau manwl, ac ystyrir mai'r drefn negyddol yw'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o sicrhau newidiadau o'r fath, ynghyd ag archwiliadau priodol gan y Cynulliad."*

Ceir esboniad manylach o'r pwerau i wneud yr offerynnau statudol y cyfeirir atynt yn y Mesur arfaethedig yn y Nodiadau Esboniadol drafft. Mae Atodiad B yn tynnu o'r nodiadau hynny yr adrannau sy'n ymwneud â gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Mesur hwn.

Mae'r prif newidiadau a wnaed ers i'r pwyllgor ystyried y drafft ymgynghori yn dilyn patrwm cyson – lle'r oedd y Mesur arfaethedig drafft gynt yn gadael rhai darpariaethau i gael eu penderfynu yn gyfan gwbl mewn rheoliadau, mae'r Mesur erbyn hyn yn cynnwys darpariaethau y gellir eu diwygio ar ôl hynny gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (gweler hefyd Atodiad A i'r papur hwn, paragraffau 2-4):

- Mae adran 8 yn pennu ar ba sail y gall pennaeth benderfynu nad oes gan ddisgybl yr hawl i ddilyn cwrs astudio ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r seiliau hynny. Mae'r drafft ymgynghori yn adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r seiliau o'r dechrau.
- Mae newidiadau tebyg yn gymwys yn adran 10 o ran ar ba sail y gall pennaeth benderfynu na fydd gan ddisgybl yr hawl bellach i ddilyn cwrs astudio, ac yn y darpariaethau cyfatebol yn Rhan 2 (adrannau 26 a 28).

Mae'r ddarpariaeth mewn perthynas â Llunio Cwricwla Lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed yn adran 21 (adran 18 gynt) wedi'i newid hefyd. Roedd y drafft ymgynghori yn darparu ar gyfer rheoliadau i bennu'r maes dysgu y byddai cwrs astudio yn perthyn iddo at ddibenion yr adran honno. Darperir mwy o hyblygrwydd gan y cynnig diwygiedig bod cwrs astudio yn dod o fewn maes dysgu arbennig os oes yna gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru sy'n darparu felly. Ni fyddai'r cyfarwyddiadau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn Cynulliad.

Mae yna hefyd bwerau gwneud rheoliadau newydd yn adran 16, 23(3), 24 a 35. Ceir manylion yn Atodiad B[103] isod.

Gweithdrefnau cymwys

Byddai gweithdrefnau Cynulliad negyddol yn gymwys i'r holl reoliadau a gorchmynion gyda dau eithriad. Byddai gweithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r offerynnau statudol hynny sy'n diwygio Deddf Seneddol, ac yn unol â'r arfer, nid oes yr un weithdrefn yn gymwys i orchmynion cychwyn. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i ddiwygio'r meysydd dysgu, sef darpariaethau Deddf Addysg 2002.

Er mwyn sicrhau cyflawnrwydd, mae pwerau i roi cyfarwyddiadau neu gyhoeddi canllawiau (a all, weithiau, gael eu hystyried yn ddeddfwriaeth) wedi'u cynnwys yn Atodiad B, ond ni fyddai unrhyw weithdrefn Cynulliad yn gymwys iddynt.

<u>Camau i'r pwyllgor eu cymryd</u>

---

[103] http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-sleg-home/bus-committees-third-sleg-agendas-2.htm?act=dis&id=106728&ds=4/2008

Gwahoddir y pwyllgor i ystyried a yw’n dymuno ystyried ymhellach y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Mesur arfaethedig hwn, ac os felly, ym mha ffordd y mae’n dymuno gwneud hynny.

**Dr Dai Lloyd AC**
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**29 Medi 2008**